




CREU DEIALOG DDIGIDOL

Sut y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddefnyddio
dulliau digidol i ymgysylltu'n fuddiol ac yn ystyrlon â
phobl Cymru?

Tasglu
Newyddion a Gwybodaeth
Digidol

CYNNWYS

Nod y Tasglu oedd archwilio ac argymell y dulliau mwyaf effeithiol y gall y Cynulliad eu defnyddio i gyflwyno newyddion a gwybodaeth ddiddorol a hygyrch am ei waith, i gynyddu lefelau dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd a'r ymgysylltiad â chynulleidfaoedd sydd, ar hyn o bryd, wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth a materion Cymreig.

CYFLWYNIAD 5

Rhagair y Cadeirydd	6
Cefndir	9
Cylch Gwaith	11
Aelodau'r Tasglu	12
Argymhellion	14
Crynodeb	20

ADRAN 1: CYD-DESTUN31

Marchnad Cyfryngau Cymru ers 1999	32
Yr Eco-system Ddigidol yng Nghymru.....	40
Seneddau eraill	42
Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Creu Cynnwys.....	44

ADRAN 2: TRAFODAETH.....47

Y Cynulliad fel Platform Cynnwys.....	49
Dweud straeon y Cynulliad Cenedlaethol.....	50
Platformau	57
Cynulleidfaoedd Arbenigol.....	64
Arweinyddiaeth Ddigidol a Data yn y Cynulliad.....	80
Aros ar y Blaen	91

ATODIADAU93

Atodiad 1: Y Cyfarfodydd a'r Trafodaethau a Gynhaliwyd	94
Atodiad 2: Aelodau'r Tasglu	96
Atodiad 3: Trosolwg o Senedd Lab	98
Atodiad 4: Astudiaethau Achos.....	104
Atodiad 5: Arolwg o Gyfryngau a Leolir yng Nghymru.....	115

CYFLWYNIAD



RHAGAIR Y CADEIRYDD

Ugain mlynedd yn ôl i fis Medi eleni, pleidleiodd pobl Cymru o blaid eu Cynulliad Cenedlaethol eu hunain. Dyma'r unig sefydliad gwleidyddol y mae pobl Cymru wedi pleidleisio i'w gael erioed. Dyma adeg briodol, felly, i ystyried sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol ymgysylltu'n well â phobl o bob cwr o Gymru. Yn yr adroddiad hwn rydym yn dangos sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r sianelau cyfathrebu digidol a'r cyfryngau cymdeithasol modern i ganfod beth mae pobl yn ei feddwl ac yn poeni amdano, i gasglu tystiolaeth, gwybodaeth a barn, i gymryd rhan mewn amser

real â phobl mewn cymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb, ac i rannu gyda hwy yn uniongyrchol sut y mae eu cynrychiolwyr etholedig, yn unigol ac ar y cyd, yn ceisio ymateb i'r materion hynny.

Mewn rhai meysydd mae ein cynigion yn radical. Rydym am i'r Cynulliad, ei Aelodau a'i staff, ddeall eu bod yn creu cynnwys: mae'r Cynulliad yn blatfform cynnwys sy'n casglu ffeithiau, gwybodaeth, data, sylwebaeth, barn, a dadansoddiadau, yn ysgrifenedig ac yn glyweledol, sydd naill ai'n arwain at weithredu neu weithiau – yn fwriadol

– at beidio â gweithredu. O'i drefnu'n iawn, mae hwn yn lle digidol dwys, gwerthfawr a democrataidd sy'n adlewyrchu sgysiau'r genedl am y materion hynny sydd o'r pwys mwyaf iddi. Dylai fod yn arloesol, yn greadigol, ac yn ennyn ysbrydoliaeth. Roedd ein grŵp yn cynnwys pobl ag amrywiaeth eang o sgiliau perthnasol, sydd wedi ein galluogi i wneud awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella'r modd y mae'r Cynulliad yn gweithredu.

Ar bobl Cymru yr oedd ein sylw – defnyddwyr posibl platfformau a gwasanaethau'r Cynulliad. Ein man cychwyn yw y dylai pob gohebiaeth gan y Cynulliad fod wedi'i chynllunio drwy roi'r sylw pennaf i'r fantais i bobl Cymru a defnyddwyr. Dylai bod rhagdybiaeth o blaid data agored, gan feithrin perthynas hirdymor â phobl Cymru.

Wrth bleidleisio dros Gynulliad Cenedlaethol ugain mlynedd yn ôl, creodd pobl Cymru sefydliad democrataidd newydd sy'n gweithredu, mae'n deg dweud, mewn byd cyhoeddus darniog. Er i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei eni pan oedd ein cyfryngau yn datblygu dulliau digidol, aethom ati mewn gwirionedd i greu llywodraeth gyhoeddus newydd yng Nghymru heb fod gan Gymru fyd cyhoeddus cydgysylltiedig. Nid ein gwaith ni fel grŵp oedd ystyried y cyfryngau yng Nghymru a'u heriau strwythurol – mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi bod yn ystyried hynny eu hunain. Ein tasg ni oedd helpu'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu sut orau i feithrin deialog ddwys, ddifffuant a pharhaus gyda phobl Cymru. Dyma'n hadroddiad. Ymlaen â'r drafodaeth!

Leighton Andrews, Cadeirydd

Bellach, mae pobl yn cael gwybodaeth a newyddion am wleidyddiaeth mewn ffyrdd gwahanol ac arloesol, yn bennaf drwy blatfformau digidol.

”

”

CEFNDIR

Mae gan Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchelgais i'r Cynulliad fod yn senedd agored, ddigidol sy'n gosod y meincnod ar gyfer deddfwrfeydd eraill. Adlewyrchir hyn yn y nod strategol, i ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad, a osodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad 2016 – 2021.

Gwnaed cryn gynnydd yn y Cynulliad blaenorol i ymgysylltu â grwpiau ac unigolion allanol yn uniongyrchol ac yn strategol yn ei waith, ond rydym yn gwybod bod angen gwneud mwy o lawer.

Bellach, mae pobl yn cael gwybodaeth a newyddion am wleidyddiaeth mewn ffyrdd gwahanol ac arloesol, yn bennaf drwy blatfformau digidol. Er y byddwn yn cyhoeddi newyddion ar brif wefan y Cynulliad ac ar Senedd TV, mae'r ôl-troed o ran ein darllediadau newyddion yn dal yn gymharol fach, ac nid yw'n cael ei rannu'n eang ar-lein. O ganlyniad, nid oes llawer o ymwybyddiaeth am waith a chyfrifoldebau'r Cynulliad er bod cryn ddiddordeb yn y meysydd pwnc y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad ail-edrych ar sut y mae'r Cynulliad yn cyflwyno'i hun i bobl Cymru, sut y mae gwaith y Cynulliad yn cael ei esbonio a dangos sut y mae'r Cynulliad yn galluogi pobl i ryngweithio ac ymgysylltu â'r sefydliad.

Yn benodol, roedd Comisiwn y Cynulliad yn awyddus i adolygu'r modd y mae'r Cynulliad yn cynhyrchu ei gynnwys ac yn dweud ei stori. Roedd hefyd am ddeall sut y gallai elwa ar dechnolegau newydd, y cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein i hysbysu'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ac ymgysylltu â hwy, a gwneud camau breision yn y maes hwn sy'n cymharu'n ffafriol â seneddau eraill a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus arloesol.

I helpu i wneud hynny, penderfynodd y Llywydd sefydlu Tasglu arbenigol bach i ddarparu cyngor am y technegau a'r cyfleoedd gorau i hybu i'r eithaf yr ymgysylltiad rhwng pobl Cymru â'u Cynulliad.



CYLCH GWAITH

Cylch gwaith y Tasglu oedd archwilio ac argymhell y dulliau mwyaf effeithiol y gall y Cynulliad eu defnyddio i gyflwyno newyddion a gwybodaeth ddiddorol a hygyrch am ei waith, i gynyddu lefelau dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd a'r ymgysylltiad â chynulleidfaoedd sydd, ar hyn o bryd, wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth a materion Cymreig.

Wrth wneud hynny, gofynnwyd i'r Tasglu:

- ystyried sut y gall gwasanaethau digidol helpu'r Cynulliad gwrdd ag anghenion gwahanol gynulleidfaoedd a chwsmeriaid;
- rhoi barn allanol, arbenigol am y defnydd a wneir ac y bwriedir ei wneud yn y dyfodol o blatfformau fel Senedd TV a fideo a'r cyfryngau cymdeithasol;
- ystyried datblygiadau newydd ar gyfer creu, cynhyrchu a dosbarthu cynnwys, a'u haddasrwydd o ran uchelgeisiau'r Cynulliad ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

AELODAU'R TASGLU



Leighton Andrews
(Cadeirydd)



Valerie Livingston



Hannah Mathias



Emma Meese



Cath Allen



James Downes



Ifan Morgan Jones



Gareth Rees



Iain Tweedale



Andy Williamson

ARGYMHELLION

Y CYNULLIAD FEL PLATFFORM CYNNWYS

- 1** Dylai'r Cynulliad arwain y ffordd a sefydlu gwasanaeth cynnwys integredig gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill (fel cylchlythyrau e-bost pwrpasol) i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru.
- 2** Dylai'r Cynulliad roi pobl – yn hytrach na'r sefydliad a'i brosesau – wrth wraidd straeon newyddion amserol ac anelu at wneud cysylltiad emosiynol â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.
- 3** Dylai'r Cynulliad greu cynnwys sy'n helpu pobl i ddeall y cysylltiadau, y gwahaniaethau a'r berthynas waith rhwng y Cynulliad a sefydliadau allweddol eraill ym mywyd cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg o ran gwybodaeth ddemocrataidd.
- 4** Dylai'r Cynulliad wahaniaethu rhwng ei gynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Dylai ddefnyddio iaith boblogaidd er mwyn cysylltu'n well â phobl.
- 5** Dylai'r Cynulliad drefnu ei blatfformau ar-lein – y wefan, Senedd TV a sianelau cyfryngau cymdeithasol – o gwmpas anghenion defnyddwyr, a chyflawni rhai o'r camau cyflym a nodwyd gan randdeiliaid yn ystod ein trafodaethau. Rhaid i'r Cynulliad lunio fframwaith gwerthuso i fesur sut y defnyddir ei gynnwys.
- 6** Rhaid i Senedd TV fod yn haws ei ddefnyddio, gyda dull syml o alluogi pobl i ganfod a chlipio ffilmiau'n gyflym er mwyn eu cynnwys mewn pecynnau fideo neu eu mewnbllannu ar dudalennau Aelodau'r Cynulliad, gwefannau allanol a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol.
- 7** Dylid adolygu strwythur sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad. Dylid mabwysiadu dulliau clyfar ar gyfer dadansoddi'r cyfryngau cymdeithasol i ganfod sgwrsiau a chymunedau ar-lein, a chaniatáu i'r Cynulliad gymryd rhan ynddynt.
- 8** Rhaid i'r Cynulliad fanteisio ar bob opsiwn amgen yn lle datganiad i'r wasg fel ffordd o hyrwyddo'i waith. Mae gan fapiau, ffeithluniau, blogiau, a chrynodebau byr y potensial i gyfleu negeseuon anodd mewn ffordd gofiadwy.
- 9** Mae angen cael proses briodol o rag-gynllunio, golygu a threfnu ar gyfer llunio adroddiadau pwyllgor. Mae angen i'r Llywydd a'i thîm gael awdurdod uniongyrchol dros y broses hon i wneud penderfyniadau ynglŷn â chyhoeddi sy'n cyd-fynd â strategaeth gyfathrebu gyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol.

ARGYMHELLION

CYNULLEIDFAOEDD ARBENIGOL

10 Dylid cael adran benodedig hawdd ei defnyddio ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar blatfform Hwb, gydag adnoddau ar gyfer addysgu sy'n gysylltiedig ag anghenion y cwricwlwm newydd sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

11 Dylai'r Cynulliad feithrin cysylltiadau cryf â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru i'w gwneud yn haws ymgysylltu â'r Cynulliad ac archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu MOOC (Cwrs Ar-lein Agored Enfawr) am ei waith.

12 Dylid mabwysiadu'r platfformau cyfryngau cymdeithasol sydd fwyaf addas i ymgysylltu â phobl ifanc a dysgwyr. Dylai'r Cynulliad groesawu'r potensial ar gyfer ymgysylltu digidol gan ddefnyddio platfformau eraill fel Skype, Facetime, realiti rhith neu realiti estynedig.

13 Dylai'r Cynulliad roi cefnogaeth ac anogaeth i ddeunyddiau a gynhyrchir gan fyfyrwyr i hyrwyddo'r Cynulliad ymhlith y cyhoedd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys mini-ffilmiau.

14 Dylai'r Cynulliad ystyried sut y mae sefydliadau cymdeithas sifil yn cyfathrebu'n ddigidol â'r cyhoedd a gweithio gyda hwy i ddarparu cynnwys addas y Cynulliad, wedi'i olygu, ar gyfer eu platfformau cyfathrebu eu hunain.

YMGYSYLLTU AG YMWELWYR

15 Dylid meddwl mwy am brofiad ymwelwyr yn ystâd y Cynulliad - y tu allan a'r tu mewn yn y Senedd a'r Pierhead - gan gynnwys tafluniadau, waliau fideo, realiti rhith a realiti estynedig.

16 Dylid ystyried pob pwynt cyswllt yn y Senedd a'r Pierhead a thu hwnt gan edrych ar yr ymgysylltiad ar y pryd, yn ogystal ag fel sail ar gyfer gwaith hirdymor i ymgysylltu'n rheolaidd a meithrin ymddiriedaeth.

17 Rhaid cofnodi pob cyswllt â'r cyhoedd yn effeithiol os yw'r Cynulliad am gynnal deialog iach gyda'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. At y diben hwn, dylai'r Cynulliad roi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid, efallai gan ddechrau gyda system syml 'oddi ar y silff' i ddatrys yr angen uniongyrchol.

18 Rydym yn argymhell bod yr ugeinfed pen-blwydd ym mis Mai 2019 ers sefydlu'r Cynulliad yn cael lle canolog mewn ymgyrch i hyrwyddo straeon datganoli, ac yn argymhell i'r Llywydd y dylai ystyried trefnu Gŵyl Ddemocratiaeth Cymru i gyd-fynd â'r pen-blwydd hwnnw.

ARGYMHELLION

ARWEINYDDIAETH O RAN DATA

19 Roeddem yn falch o glywed bod y Cynulliad eisoes wedi dechrau ystyried strategaeth Data Agored a byddem yn argymhell ei fod yn gwneud newidiadau sylweddol a gweledol i ddangos ei ymrwymiad i hyn. Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn ymgysylltu ag arbenigwyr yn y maes i lunio'i strategaeth.

20 Dylai'r Cynulliad sefydlu tîm Data Agored i gyflawni'r strategaeth a datblygu cynllun hyrwyddo sy'n targedu defnyddwyr tebygol i sbarduno ymwybyddiaeth o ddulliau gweithredu'r Cynulliad.

GOBLYGIADAU DIWYLLIANNOL

21 Dylai anghenion defnyddwyr fod wrth wraidd y gwaith o ddylunio gwasanaethau newydd. Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y rhaglen FySenedd drwy roi'r lle canolog i ddefnyddwyr wrth ddylunio gwasanaethau hytrach na bod hynny'n cael ei arwain gan y sefydliad.

22 Rhaid i'r Cynulliad ddatblygu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu rhoi cynnig ar ddulliau newydd o ddarparu gwasanaethau digidol, a chael eu grymuso i wneud hynny, heb ofni'r canlyniadau os na fydd pethau'n gweithio yn ôl y disgwyl. Er mwyn creu amgylchedd o'r fath, rhaid i bobl fod yn gwybod y gallant fethu'n gyflym a methu'n ddiogel. Mae hyn yn llawer gwell na methu ar ôl misoedd o waith drud y tu ôl i ddrysau caeedig.

23 Mae angen i'r Cynulliad sicrhau bod dulliau digidol yn cael eu hymgorffori yn holl brosesau'r Cynulliad, a meithrin dealltwriaeth bod mwy i ddulliau ddigidol na thechnoleg - mae'n ffordd o feddwl ac o weithio.

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

24 Dylai pob aelod o staff y Cynulliad ystyried ei hun yn gynhyrchydd cynnwys. Rhaid cyfathrebu am unrhyw beth sy'n cael ei gyhoeddi ar gyfer y cyhoedd - gan gynnwys dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn, datganiadau i'r wasg, trydариadau ynghylch oriau agor y Senedd, adroddiadau pwyllgorau, siartiau llif deddfwriaeth a blaenraglenni gwaith - gan ystyried y gynulleidfa allanol.

25 Credwn fod yn rhaid i'r Cynulliad sefydlu rhaglen o hyfforddiant gorfodol a pharhaus i helpu pawb yn y sefydliad i gyfathrebu'n ddigidol yn llwyddiannus.

26 Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn pennu swydd uwch i lywio'r agenda ddigidol. Dylid tynnu gweithrediadau, cyfathrebu a thechnoleg dyddiol ynghyd i osod dulliau digidol yng nghalon strategaeth weithredol y Cynulliad.

27 Dylid cadw llygad parhaus ar argymhellion ein hadroddiad, a dylid rhoi'r cyfrifoldeb penodol am arwain ar hyn i un o Gomisïynwyr y Cynulliad er mwyn gyrru'r argymhellion ymlaen.

CRYNODEB

CEFNDIR

- Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru agor ei ddrysau yn 1999 mae'r ffordd y mae pobl yn cael gwybodaeth ac yn ei defnyddio wedi newid yn aruthrol. Mae cynnydd y sianelau cyfryngau cymdeithasol yn gyfle i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â phobl. Maent hefyd yn rhoi ei chynulleidfa ei hun i'r cyhoedd. Mae'n beth cyffredin bellach i bobl fod yn berchen ar ffôn clyfar a gallu cysylltu â'r rhyngwyd trwy gyfrwng dyfais symudol. Bu dirywiad yn y sylw a roddir i Gymru ar rwydweithiau newyddion y DU, a dirywiad yng nghylchrediad papurau newydd yng Nghymru, wrth i bobl ddewis cael eu newyddion drwy ddulliau llawer mwy amrywiol. Felly, mae angen atebion newydd ar Gymru a'r Cynulliad i warantu sgysiau cenedlaethol.
- Mae gan Gymru eco-system ddigidol gref a bywiog sy'n cynnwys lluo o enghreifftiau o arfer gorau y gall y Cynulliad ddysgu oddi wrthynt. Mae angen i'r Cynulliad edrych fwyfwy tuag allan, nid yn unig o ran dysgu a deall yr arferion digidol diweddaraf, ond hefyd o ran darganfod sgysiau cenedlaethol a deall sut y gall y Cynulliad fod yn rhan ohonynt.
- Mae mwy a mwy o seneddau'r byd yn defnyddio offer digidol i ymgynghori ac ymgysylltu a bu cynnydd sydyn yn nifer y seneddau sy'n cynnig data agored yn ogystal â dogfennau agored i'r cyhoedd eu defnyddio.

Y CYNULLIAD FEL PLATFFORM CYNNWYS

- Mae'r Cynulliad yn cynhyrchu swm sylweddol o wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau bob dydd. Er bod llawer o'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, mae'n anodd dod o hyd iddi a'i deall. Yn fwy cadarnhaol, mae nifer o fentrau creadigol diweddar y Cynulliad yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau'r cyfryngau cenedlaethol, yn enwedig tŷ y llais a fabwysiadwyd ar rai sianelau cyfryngau cymdeithasol, ac ansawdd y graffeg, y gwaith animeiddio a fideo i ddarlledu negeseuon allweddol. Ond gellid gwneud llawer mwy i wneud yn fawr o effaith y Cynulliad, sy'n sefydliad hynod gyfoethog ei gynnwys, er mwyn cyflawni ei nod o ymgysylltu â holl bobl Cymru.
- Dylid ailddychmygu'r Cynulliad fel platfform cynnwys. Mae hyn yn sefydlu meddylfryd newydd sy'n canolbwyntio ar sut y gall y Cynulliad gyrraedd cynulleidfaoedd yn uniongyrchol. Mae newid o'r fath yn golygu bod angen i'r Cynulliad roi mwy o bwyslais ar ddosbarthu cynnwys. Dylid pecynnu cynnwys fel bod modd ei wthio'n uniongyrchol i blatfformau y mae cynulleidfaoedd eisoes yn eu defnyddio, yn hytrach na disgwyl i'r gynulleidfa ymweld â phlatfformau'r Cynulliad ei hun. Yn sgil y newid hwn o ran agwedd byddai deunyddiau defnyddiol yn cael eu cynhyrchu hefyd ar gyfer cyhoeddiadau newyddion lleol a hyperleol Cymru, yn enwedig y rhai sydd angen pecynnau cynnwys ar gyfer platfformau digidol.



CRYNODEB

RHOI'R DEFNYDDIWR YN CYNTAF

- Mae gan y Cynulliad ystâd ddigidol sylweddol ac mae llawer ohoni yn arddel arferion ardderchog, ond mae rhai elfennau wedi cael trafferth darparu profiad cyflawn i ddefnyddwyr. Rhaid i holl ohebiaeth y Cynulliad a'i wasanaethau digidol gael eu cynllunio drwy roi'r sylw pennaf i'r sawl fydd yn eu defnyddio yn y pen draw. Mae'r Cynulliad yn bodoli i gynrychioli pobl Cymru ac felly dylai'r effaith arnynt hwy neu ar eu cymunedau fod wrth wraidd y neges bob tro wrth esbonio busnes, strwythurau neu waith llunio polisi y Cynulliad.
- Mae angen i'r Cynulliad roi pobl, yn hytrach na'r sefydliad a'i brosesau, wrth wraidd popeth a wna. Fel conglfaen democratiaeth iach yng Nghymru rhaid i'r Cynulliad feddwl am effaith ymarferol ei holl ddadleuon, ei benderfyniadau a'i weithredoedd ar y bobl y mae'n eu cynrychioli, a dysgu cyfathrebu ei waith o'u safbwynt hwy.

CRYNODEB

DARPARU AR GYFER CYNULLEIDFAOEDD GWAHANOL

- O'r cychwyn cyntaf, mae'r Cynulliad wedi buddsoddi mewn rhaglen addysg sylweddol gydag allgymorth i ysgolion yng Nghymru. Rydym yn angerddol o blaid cynlluniau'r Comisiwn i sefydlu Senedd leuenctid i Gymru a fydd yn adeiladu ar raglen Ymgysylltu Addysg ac leuenctid sydd eisoes yn llwyddo. Mae'r adborth gan athrawon yn dangos bod awydd a brwdfrydedd yn y sector addysg am gynnwys ysbrydoledig gan y Cynulliad sydd wedi'i gysylltu'n glir â'r cwricwlwm, yn seiliedig ar brofiadau bywyd go-iawn a straeon sy'n cael eu rhannu gan y bobl ifanc eu hunain.
- Mae'r Cynulliad wedi bod ar flaen y gad yn ei waith allgymorth cymunedol, ond os yw am feithrin ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth a hyrwyddo pa mor berthnasol ydyw ymhlith pobl Cymru, mae'n bryd gwneud newid sylweddol i ansawdd ei gyrhaeddiad digidol. Mae angen gwella partneriaethau ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion allanol i wella dulliau hyrwyddo, lledaenu cynnwys, a bwydo gwybodaeth yn ôl.

- Mae ystâd ffisegol y Cynulliad, sy'n cynnwys y Senedd a'r Pierhead, wedi cael dros 188,000 o ymwelwyr ers yr etholiad ym mis Mai 2016. Fodd bynnag, nid yw'r adeiladau eiconig hyn yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Dylid manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ddefnyddio'r adeiladau hyn yn gyfrwng i adrodd stori'r Cynulliad. Mae ymgysylltiad pobl â sefydliadau yn gyfuniad o brofiadau digidol a ffisegol, felly rhaid ystyried y cynnig cyfan yn ofalus, yn hytrach nag edrych ar ryngweithiadau yn unigol.
- Ar draws ei holl sianelau, mae'r Cynulliad yn ymgysylltu â degau o filoedd o bobl bob blwyddyn. Serch hynny, nid oes gan y Cynulliad strategaeth na system ar hyn o bryd i reoli'r berthynas rhwng ei gynnwys ledled y sefydliad. Rhaid cofnodi pob cyswllt yn effeithiol os yw'r Cynulliad am feithrin perthnasau hirdymor a chynnal deialog iach gyda'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Mae hyn yn golygu rhoi cyfleoedd digonol a hygyrch i'r cyhoedd ddarparu data. Yna, mae angen rheoli'r data hynny'n ddiogel a'u defnyddio i wneud cysylltiad ystyrlon.

CRYNODEB

NEWID MEWN DIWYLLIANT A GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- Mae'n gyfle da i'r Cynulliad, pan fydd yn nodi ugain mlynedd ers ei sefydlu, edrych o'r newydd ar y ffordd y mae'n ei gyflwyno'i hun, yn adrodd ei hanes ac yn dangos ei fod yn senedd arloesol sy'n edrych tua'r dyfodol.
- Mae ambell enghraifft o arferion da yn y Cynulliad. Er enghraifft, mae'r rhaglen FySenedd yn ceisio gwneud gwybodaeth y Cynulliad yn fwy hygyrch a pherthnasol, ac yn haws ei chanfod, ei deall, ei rhannu a'i hailddefnyddio. Gwneir hyn drwy gyfres o welliannau ymarferol, parhaus i wasanaethau digidol ac mae'n gwneud gwaith rhagorol yn arwain y ffordd i weddill y sefydliad o ran mabwysiadu dull hyblyg o reoli prosiectau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cynulliad cyfan arfer bod yn fwy ystwyth o ran dysgu am y tueddiadau a'r arferion gorau mewn byd digidol a thechnolegol sy'n prysur newid. Rhaid i ddiwylliant y Cynulliad newid er mwyn sicrhau nad yw proses, gweithdrefn a threfniadau gweinyddol yn mygu arloesedd a chynnydd.

- Dylid recriwtio arweinwyr newydd ym maes cynnwys digidol a rheoli newyddion a rhoi'r lle a'r amser iddynt gynllunio gwaith newyddion a hyrwyddo'r Cynulliad yn effeithiol. Hefyd dylid rhoi'r rhyddid a'r ymddiriedaeth iddynt flaenoriaethu cynnwys golygyddol yn unol ag amcanion y sefydliad.
- Nid timau gwasanaethau Digidol a Chyfryngau'r Cynulliad yw'r unig rai sy'n gyfrifol am gyfathrebu'n ddiddorol mewn modd digidol ar ran y Cynulliad. Mae'n rhaid i bartneriaid mewnol, gan gynnwys clercod pwyllgorau, ymchwilywyr, a'r timau ymwelwyr, addysg ac allgymorth wneud eu rhan yn y broses hon.

CRYNODEB

CYNLLUNIO AR CYFER Y DYFODOL

- I grynhoi, nid rhaglen o waith unwaith ac am byth yw hon. Bydd y dirwedd ddigidol yn parhau i ddatblygu yn hynod gyflym a bydd cynulleidfaoedd y Cynulliad yn mabwysiadu sianelau newyddion a phlatfformau newydd. Mae angen i'r Cynulliad groesawu hyn a datblygu diwylliant digidol â'r agwedd a'r sgiliau iawn i addasu i newid parhaus ac adnewyddu ei ddarpariaeth yn gyson.



ADRAN 1: CYD-DESTUN

MARCHNAD CYFRYNGAU CYMRU ERS 1999

Agorodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddrysau ar ddechrau'r chwyldro teledu digidol.

Yn 1999, peth cyffredin oedd siarad am y 'difidend datganoli' yr oedd y cyfryngau yng Nghymru wedi elwa arno, gan gynnwys adnoddau sylweddol a staff newydd ar gyfer darlledu materion gwleidyddol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos cwmnïau darlledu, a fuddsoddodd mewn trosglwyddydion newydd i sicrhau bod materion Cymreig yn cyrraedd pob rhan o Gymru. Yr uchelgais bryd hynny, fel y soniodd Geraint Talfan Davies, Rheolwr BBC Cymru ar y pryd, oedd gweld y sefydliad newydd a'r prosesau newydd yn dod yn rhan annatod o'n naratif dyddiol ymwybodol ac is-ymwybodol.¹

Mae nifer o bethau wedi newid ers hynny. Ychydig dros ddegawd yn ôl, symudodd y Cynulliad Cenedlaethol allan o'i siambr dros dro yn Nhŷ Crughywel, fel y'i gelwid bryd hynny, i adeilad y Senedd, lle'r oedd siambr ac ystafelloedd pwyllgora pwrpasol.

Adeilad â waliau gwydr oedd hwn a'r bwriad oedd dangos mor agored a thryloyw oedd y sefydliad ifanc. Erbyn hyn, dyma un o'r adeiladau sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr yng Nghymru, ac mae'r cyhoedd a byd addysg yn ymweld ag ef yn un llif cyson.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r defnydd o sianelau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter wedi cynyddu fel fforymau uniongyrchol ar gyfer cyswllt rhwng Aelodau'r Cynulliad a'r Cynulliad fel sefydliad, a'r sefydliadau cyhoeddus a chymdeithas ddinesig ehangach. Bellach, aeth dros ddegawd heibio ers i ffonau clyfar ddod yn boblogaidd, a bu newid sylweddol ers hynny yn y ffordd y mae pobl yn cael newyddion a gwybodaeth ac yn eu defnyddio.

Mae ffigurau Ofcom ar gyfer 2016² yn dangos bod gwylwyr a gwrandawyr yng Nghymru yn dal i dreulio mwy o'u hamser yn gwyllo'r teledu ac yn gwrando ar y radio nag eraill yn y DU. Roedd y nifer a oedd yn berchen ar ddyfeisiau tabled yn uwch yng Nghymru (67%) nag mewn mannau eraill yn y DU (59%), ac roedd y gyfran o bobl Cymru a ddywedodd mai eu dyfais dabled oedd eu hadnodd pwysicaf i fynd ar-lein yn uwch (25%) o gymharu â chyfartaledd y DU (20%). Roedd gan naw o bob deg oedolyn ffôn symudol, ac er bod y gyfran sy'n berchen ar ffôn clyfar yng Nghymru yn is (65%) nag yn y DU yn gyffredinol (71%), dywedodd 36% mai'r ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf a oedd ganddynt i fynd ar-lein:

“Ac eithrio defnyddwyr rhyngrwyd sydd dros 55 oed, a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, y ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf ar gyfer cael mynediad i'r rhyngrwyd ar draws pob grŵp demograffig. Er enghraifft, roedd 58% o bobl 16-34 oed yn nodi mai'r ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf, o'i gymharu â 7% o bobl dros 55 oed. Nododd traean a mwy (34%) yn y grwpiau ABC1 mai'r ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf iddynt; roedd hyn yn codi i ychydig o dan hanner (47%) defnyddwyr y rhyngrwyd mewn aelwydydd C1DE.

Roedd 57% o bobl Cymru yn cael mynediad at y rhyngrwyd drwy'r ffôn symudol bob wythnos. Roedd 43% yn cyfathrebu ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel WhatsApp neu Facebook Messenger, o gymharu â 24% yn 2014. Roedd 30% yn defnyddio'r rhyngrwyd i gael mynediad i wasanaethau newyddion bob wythnos.

Roedd ymchwil ryngwladol gan Reuters Institute³ yn 2016 yn dangos:

“The biggest change in digital media has been the growth of news accessed via social media sites like Facebook, Twitter, Instagram, and Snapchat.

² Ofcom, *The Communications Market: Wales*, Awst 2016:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/34831/CMR_Wales_2016.pdf

³ Reuters' Institute for the Study of Journalism, *Reuters' Institute Digital News Report*, 2016:

<https://reutersinstitute.politics.ox.ac.uk/sites/default/files/Digital-News-Report-2016.pdf>

¹ Geraint Talfan Davies, *Not by Bread Alone*, Fforwm Cyfryngau Cymru 1999

Er bod y ffigurau hyn yn debygol o barhau i gynyddu, teledu yw'r cyfrwng cyfathrebu mwyaf pwerus ar gyfer newyddion yng Nghymru o hyd. Mae bwletinau newyddion lleol ITV a BBC One fin nos yn denu cyfran fwy o wylwyr yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU ar gyfer yr un slot yn ystod yr wythnos:

“ Llwyddodd Wales Today, bwletin newyddion BBC One yn gynnar fin nos, i gael 30.7% ar gyfartaledd o'r gwylio yng Nghymru rhwng 6.30pm a 7.00pm yn 2015, sy'n uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer BBC One am yr un cyfnod amser (29.6%). Cafodd ITV News at Six, bwletin cyfatebol ITV, gyfran is na Wales Today BBC One, er bod y gyfran honno, 20.1%, yn dal uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer Channel 3 (18.5%).

Canfu Ofcom yn 2015 mai teledu oedd prif ffynhonnell newyddion pobl Cymru:

“ Yng Nghymru yn 2015, dywedodd bron i chwech ymhob deg (58%) o oedolion 16 oed a hŷn mai'r teledu yw eu prif ffynhonnell ar gyfer cael newyddion y DU a newyddion y byd. Defnyddiwyd gwefannau neu apiau gan ddau ymhob deg oedolyn fel ffynhonnell newyddion, mwy nag unrhyw wlad arall yn y DU a'r DU drwyddi draw. Defnyddiwyd y radio a phapurau newydd ar gyfer cael newyddion y DU a newyddion y byd gan gyfran debyg o oedolion yng Nghymru (9% ac 8%).

Mae'r sylw a roddir i Gymru ar rwydweithiau newyddion y DU wedi bod yn destun sylwadau beirniadol gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad, ymhlith eraill.⁴ Mae ymchwil academaidd⁵ gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer y BBC wedi nodi gostyngiad yn y sylw a roddir i faterion Cymreig ar rwydwaith y BBC:

4 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, *Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru*, Chwefror 2017.

<http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=18619>

5 Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Caerdydd, *Four Nations Impartiality Review Follow-up: An Analysis of Reporting Devolution*, 2015:

http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/review_report_research/impartiality/2016/cardiff_university_2015.pdf

“ Between 2009 and 2015, news from Wales fell dramatically from 3.4% to 0.5% of news items on BBC television and 6.4% to 3.7% on BBC radio.

Fodd bynnag, canfu'r un ymchwil fod sylw i wleidyddiaeth ddatganoledig ledled y DU yn 2015 wedi cynyddu ar draws yr holl gyfryngau, o gymharu â 2007 a 2009, ond bod twf y sylw yn bennaf yn ymwneud â phroses gwleidyddiaeth, yn hytrach na pholisi. Canfu adroddiad dilynol⁶ yn 2016:

“ Although the BBC communicates news about the four nations with greater regularity and clarity than commercial television, overall devolved politics continues to represent a fraction of UK network news.

Yn y cyfamser, mae cyfryngau Cymru yn ddarniog ac yn parhau i wanhau a chwtogi, ac mae'r berchnogaeth a'r penderfyniadau golygyddol wedi'u canoli y tu allan i ffiniau Cymru.⁷ Bu gostyngiad yng nghylchrediad y Western Mail, papur newydd cenedlaethol Cymru, o dros 55,000 ym 1999 i 16,754 yn 2016.⁸ Yn 2016, penderfynodd y Daily Post, y papur newydd a leolir yng Nghymru sydd â'r ffigurau gwerthiant uchaf, 23,645⁹, roi'r gorau i anfon gohebydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymdrin â materion datganoledig.¹⁰

6 Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Caerdydd, *Nations Impartiality Review: A snapshot picture*, 2016:
http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/review_report_research/impartiality/2016/cardiff_university_2016.pdf

7 McElroy et al, *Broadcasting after devolution: policy and critique in the Welsh media landscape 2008-2015*, Ionawr 2017

8 ABC, *Tystysgrif cyfanswm cylchrediad cyfun y Western Mail (gwerthiannau print ar gyfartaledd rhwng Mehefin 2015 a Ionawr 2016)* cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016:
<http://www.abc.org.uk/Certificates/47760444.pdf>

9 ABC, *Tystysgrif cyfanswm cylchrediad cyfun y Daily Post (gwerthiannau print ar gyfartaledd rhwng Mehefin 2015 a Ionawr 2016)* cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016:
<https://abc.org.uk/Certificates/47760903.pdf>

10 Thomas, Huw, *Daily Post assembly reporting change 'ludicrous'*, NUJ claims, June 2016:
<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-36585967>



Canfu arolwg a gynhaliwyd yn 2016 nad yw pobl Cymru yn cael newyddion am y Cynulliad yn rheolaidd, gan mai dim ond 4% sy'n darllen y Western Mail, a dim ond 2.5% sy'n darllen y Daily Post. I gymharu, roedd 16% yn darllen y Daily Mail.¹¹ Yn 2010, canfu adroddiad i'r sylw a roddodd y BBC yn y DU i ddatganoli mai dim ond 3.6% o newyddion ar deledu, radio ac ar-lein y BBC oedd yn ddaearyddol berthnasol i Gymru, o gymharu â 4.5% ar gyfer Gogledd Iwerddon, 9.9% ar gyfer yr Alban ac 82% ar gyfer Lloegr.¹² Nid oedd hyn yn cynnwys newyddion am wleidyddiaeth y DU yn San Steffan.

Hyd yn oed pan oedd y cyhoedd yn ymgysylltu â'r cyfryngau yng Nghymru, ychydig o sylw a gafodd y Cynulliad yn y cyfryngau hynny.¹³ Nid yw'n syndod, felly, fod natur wan a darniog y cyfryngau yng Nghymru yn golygu nad oes dealltwriaeth am natur y ddeddfwrfa ac nad yw'n destun craffu, er ei bod yn gyfrifol am feysydd polisi allweddol megis addysg, iechyd a thrafnidiaeth.¹⁴

¹¹ Cushion & Scully, *British media is failing to give voters the full picture ahead of elections*, April 2016: <https://theconversation.com/british-media-is-failing-to-give-voters-the-full-picture-ahead-of-elections-57020>

¹² Cushion, et al., *Four Nations Impartiality Review Follow-up: An analysis of reporting devolution*, 2010

¹³ Thomas, et al., *Journal of Public Affairs, Stirring Up Apathy? Political Disengagement and the Media in the 2003 Welsh Assembly Elections*, 2004

¹⁴ Cushion, et al., *Journalism Studies, Reflecting the Four Nations?: An analysis of reporting devolution on UK network news media*, 2009

Canfu arolwg gan y BBC/ICM yn 2014 bod dryswch cyffredinol ynghylch pa bwerau sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda dim ond 48% yn nodi'n gywir fod iechyd yn fater datganoledig, a 42% yn credu'n anghywir fod y Cynulliad yn rheoli plismona.¹⁵ Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi dweud bod hwn yn fater sy'n peri pryder. Ym mis Mai 2013 siaradodd Llywydd y Cynulliad ar y pryd yn blaen am yr hyn yr oedd hi'n ei alw'n 'ddiffyg democrataidd' yng Nghymru. Roedd prinder cyfryngau Cymreig cadarn yn golygu bod y boblogaeth yn dibynnu ar ddarlledwyr 'Eingl-ganolog' ac allfeydd newyddion a oedd yn cyfeirio at faterion a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig fel pe baent yn gymwys i'r DU gyfan. Dywedodd fod y bai mwyaf ar y pwysau ariannol y mae gweisg cenedlaethol a rhanbarthol cynhenid Cymru yn eu hwynebu, a chyfeiriodd at y perygl o gerdded yn ddjarwybod tuag at sefyllfa o ran y cyfryngau yng Nghymru lle mae lluosogrwydd yr hyn a gofnodir am ein bywyd gwleidyddol yn brin neu ddim yn bodoli.¹⁶ Fel y dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig yn 2015 yn sgil ei archwiliad i'r cyfryngau: "At a time when Wales as a democratic entity has never been more clearly defined, the sources for information for debate and scrutiny about our Government, culture and identity are drying up."¹⁷

¹⁵ Newyddion y BBC News, *Llawer yn dal ddim yn deal datganoli*, Mehefin 2014: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/27756525>

¹⁶ Butler, Rosemary, *Diffyg Democrataidd - y Llywydd yn croesawu ffigyrau amlwg o fydd y cyfryngau i'r Pierhead mewn ymgais i sicrhau lluosogrwydd yn y sylw a roddir i newyddion y Cynulliad*, Mai 2013: <http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=1109>

¹⁷ Y Sefydliad Materion Cymreig, *IWA Wales Media Audit*, 2015

Yn yr amgylchedd heriol hwn, sut y gall y Cynulliad sicrhau ei fod yn cyfathrebu â phobl Cymru sydd am i'r sefydliad adlewyrchu eu gobeithion a'u dyheadau, a'u cyflawni?

Mae'n dod yn fwyfwy anodd cyfathrebu'r gwaith a wneir gan wleidyddion i gyflawni uchelgeisiau'r cyhoedd yng Nghymru ac mae rhannau helaeth o'r boblogaeth heb wybod am y gwaith hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn cael eu newyddion teledu a radio gan sianelau a ddarlledir drwy'r DU ac sy'n rhoi ychydig iawn o sylw i Gymru. Yn anaml iawn y maent yn egluro am y gwahaniaethau rhwng polisïau yng Nghymru ac yn Lloegr, ar wahân i grybwyll ffaith yma ac acw. Pur anaml y mae papurau newydd Llundain, sy'n cael eu darllen yn eang yng Nghymru, yn sôn am wleidyddiaeth Cymru neu'r Cynulliad. Ychwanegir at y broblem gan y pwysau ariannol a masnachol sy'n wynebu ein gweisg cenedlaethol a rhanbarthol cynhenid yng Nghymru, sy'n golygu bod llawer ohonynt yn methu â neilltuo adnoddau i roi sylw llawn i newyddion y Cynulliad.

Yn ddiweddar bu rhai datblygiadau cadarnhaol o ran y cyfryngau newyddion. Ar ôl Brexit, nid oedd disgwyl y byddai'r cylchgrawn The New European yn parhau am fwy nag ychydig wythnosau, ond mae'n dal ei dir o hyd. Mae'r Guardian wedi denu 200,000 o aelodau ychwanegol i danysgrifio iddo. Yn yr Unol Daleithiau, mae ymgeisyddiaeth Trump a'i arlywyddiaeth wedi bod yn hwb i gylchrediad y New York Times a'r Washington Post.

Bu ambell fuddugoliaeth leol yng Nghymru hefyd. Er bod dyddiau'r Port Talbot Magnet ar ben, mae www.wrexham.com yn ffynnu ar-lein, ac yn yr un modd y Caerphilly Observer, MyNewtown a MyWelshpool – sydd oll wedi creu presenoldeb digidol cryf ar-lein.

Hefyd, mae'r chwyldro digidol wedi bod yn hwb i newyddiaduraeth Gymraeg a ariennir yn gyhoeddus. Mae BBC Cymru Fyw a Golwg360 yn denu dros 57,000 o ymwelwyr wythnosol unigryw rhyngddynt. Mae tua hanner y gynulleidfa hon yn iau na 40 mlwydd oed. Maent wedi bod yn effeithiol wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddenu cynulleidfa newydd, ac iau, na fyddai fel arfer yn darllen cyhoeddiadau print Cymraeg nac yn gwrando ar raglenni teledu a radio Cymraeg.

Bydd pwysau'r farchnad a phwysau technolegol yn parhau i newid siâp y diwydiant cyfryngau yng Nghymru – bydd pwysau gwleidyddol, ac ymyrraeth gyhoeddus, hefyd yn cael effaith ar ei ddatblygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd yn y gorffennol, er enghraifft drwy ariannu radio cymunedol, datblygiad digidol ar gyfer y Papurau Bro a'r gwasanaeth ar-lein Cymraeg Golwg 360, a gefnogir o hyd braich – ynghyd ag amrywiaeth o gyhoeddiadau diwylliannol – drwy gyfrwng grantiau Cyngor Llyfrau Cymru.

Wrth wraidd yr holl newidiadau hyn mae newid sylfaenol mewn patrymau defnyddio'r cyfryngau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynulleidfaoedd wedi bod yn canfod ac yn defnyddio cynnwys digidol mewn amrywiaeth o ffyrdd newydd a gwahanol, ac mae'r ymddygiad hwn yn parhau i esblygu.

Yng nghanam cyntaf y we, roedd sefydliadau'n adeiladu gwefannau ac yna'n denu cynulleidfaoedd drwy hyrwyddo'u cynnyrch yn sylweddol. Roedd tudalennau hafan y safleoedd hyn yn gweithredu fel 'pyrth' i'r cynnwys y tu mewn. Roedd yr ail gam yn cael ei nodweddu gan gynulleidfaoedd yn chwilio am gynnwys drwy beiriannau chwilio a oedd yn eu tywys yn uniongyrchol at ddarn penodol o gynnwys heb fod angen i'r defnyddiwr orfod mynd yn gyntaf i'r dudalen hafan neu'r porth ar gyfer y safle hwnnw. Yn sgil hynny, nid oedd pyrth mor bwysig bellach.

Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi effeithio ar y modelau traddodiadol ar gyfer lledaenu newyddion. Heddiw, mae pobl yn dewis cael eu newyddion drwy ffyrdd llawer mwy amrywiol – rhai ohonynt drwy Facebook yn unig erbyn hyn.

Yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y cyfryngau cymdeithasol mae ffenomen newydd sef bod 'cynulleidfa gan y gynulleidfa'. Mewn geiriau eraill, drwy gyrraedd rhai defnyddwyr sydd â dilynwyr lu ar y cyfryngau cymdeithasol (dylanwadwyr cymdeithasol) mae'n bosibl dosbarthu cynnwys i nifer fawr o bobl gyda'r gynulleidfa eu hunain yn gweithredu fel y rhwydwaith dosbarthu. Mae'r dull cymdeithasol hwn o ddosbarthu cynnwys yn gyfrwng pwerus ar gyfer darbwyllo.

Yn erbyn y cefndir hwn sy'n esblygu, rhaid i ni atgoffa ein hunain bod arolygon dilynol yn dangos bod y mwyafrif helaeth o boblogaeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar ddarllediadau cenedlaethol a chyfryngau print y DU i gael newyddion a gwybodaeth wleidyddol. Yn gynyddol, neu yn hytrach fel erioed, bach iawn o sylw a roddir i Gymru a'i llywodraeth ar dudalennau'r papurau llydain, y tabloids a'r bwletinâu newyddion prif ffrwd.

Mae angen atebion newydd ar Gymru a'r Cynulliad i hybu sgwrs genedlaethol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cynulliad ystyried a yw'n defnyddio'i adnoddau i ddarparu erthyglau i gyhoeddiadau y mae eu cynulleidfa yn dirywio yng Nghymru ac ystyried sut orau y gall reoli'r modd y mae'n cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru, drwy gyfryngau sy'n bodoli eisoes a heb ganolwyr – mewn geiriau eraill, yn uniongyrchol i bobl Cymru.

YR ECO-SYSTEM DDIGIDOL YNG NGHYMRU

Mae eco-system ddigidol gref yng Nghymru. Dyma rai o'r enghreifftiau o arfer da:

- Asiantaethau ac adrannau llywodraeth y DU, megis y DVLA, ONS, IPO a Thŷ'r Cwmnïau.
- Defnyddwyr data mawr yn y sector preifat, gan gynnwys Admiral, Airbus, BT a GoCompare.
- Sefydliadau'r cyfryngau fel y BBC, S4C, ITV Wales, a Media Wales, a nifer gynyddol o wasanaethau newyddion digidol bach.
- Busnesau newydd arloesol, a leolir weithiau mewn deoryddion fel Welsh ICE, Tramshed Tech, ac Indycube.
- Prifysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau preifat a chymdeithas ddinesig fel Satori Lab, Gov Camp Cymru a'r Sefydliad Data Agored.

Hwb

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'i Chynllun Data Agored ei hun, ac mae wedi datblygu prosiectau data agored arobryn megis Fy Ysgol Leol, gwefan i ddarparu data am berfformiad ysgolion i rieni ac eraill a all fod â diddordeb. Mae dros hanner miliwn o bobl ifanc, a phob ysgol yng Nghymru, wedi'u cysylltu â phlatform Hwb Llywodraeth Cymru.

Mae GIG Cymru wedi datblygu nifer o fentrau digidol blaenllaw.

Mae gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (platfform arloesi agored digidol) wedi arwain at ddatblygu Fy Iechyd Ar-lein. Yn sgil hyn, gall cleifion gymryd mwy o ran yn eu gofal iechyd eu hunain drwy gyfrwng y rhyngwrdd, a hynny ar unrhyw adeg o'r dydd, unrhyw ddydd o'r wythnos, mewn ffordd debyg i siopa neu fancio ar-lein.

Mae Fy Iechyd Ar-lein yn rhoi cyfle i gleifion drefnu i weld eu meddyg teulu, cael presgripsiynau amlroddadwy, a diweddarau eu manylion cyffredinol fel newid cyfeiriad, a hyn oll o'u cyfrifiaduron neu eu dyfeisiau eu hunain.

Yn ogystal â bod yn fwy cyfleus i gleifion mae'r system hefyd wedi bod o fudd i feddygfeydd gan ei bod yn arbed amser ar alwadau ffôn, yn cysylltu â chofnodion cleifion yn uniongyrchol ac yn cwtdogi ar y camau gweinyddol wrth brosesu presgripsiynau amlroddadwy.

WISERD

Mae Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol wedi ffurfio partneriaeth â WISERD - Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Cymdeithasol ac Economaidd Cymru - i ddatblygu rhyngwyneb pwrpasol ar gyfer Porth Data WISERD. Mae'n caniatáu i staff ymchwil y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth gael mynediad at amrywiaeth eang o ddata ar gyfer Etholaethau a Rhanbarthau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

SENEDDAU ERAILL

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi comisiynu adroddiad ar ei ymgysylltiad digidol gan y Dr Andy Williamson. Daeth ei adroddiad i'r casgliad bod y cyfryngau digidol yn lleoedd delfrydol i ddeddfwrfeydd gysylltu ac ymgysylltu â phobl na fyddent fel arfer yn meddwl am siarad â'u senedd neu wneud sylwadau. Maent yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn ffordd fwy sgysiol, yn hytrach na dim ond fel sianel ddarlledu arall, ond gall hyn fod yn heriol i sefydliadau cyhoeddus sy'n ceisio cydbwysu gweithdrefnau ffurfiol gyda chyfryngau mwy anffurfiol sy'n fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr.

Mae'r Cynulliad wedi creu ystâd ddigidol sylweddol ac mae llawer ohoni, a'r arfer sy'n gysylltiedig â hi, yn ardderchog. Fodd bynnag, mae rhai agweddau allweddol o'r ystâd ddigidol wedi cael trafferth i ddarparu profiad cyflawn i ddefnyddwyr. Mae'r Cynulliad wedi croesawu syniadau newydd yn frwdfrydig ac wedi dangos yn gyson ei fod yn arloesol ac yn agored. Mae'r cyfathrebiadau sy'n deillio o'r Cynulliad gyda'r gorau yn y byd, ond ar ochr arall y glorian mae gwefan sy'n wael o ran y gallu i'w chwilio, diffyg integreiddio ag asedau digidol eraill, ac iaith gymhleth sydd wedi'i hanelu'n rhy aml at ddefnyddwyr profiadol, yn hytrach na'r cyhoedd. Mae'r her hyd yn oed yn fwy am fod y cyfryngau lleol yn wan ac am nad oes diddordeb gan gyfryngau'r DU.

Mae'r adroddiad World e-Parliament, a luniwyd hefyd gan y Dr Williamson, yn dangos bod mwy a mwy o seneddau yn defnyddio offer digidol i ymgynghori ac ymgysylltu, ond eu bod hyd yn oed yn fwy tebygol o ddefnyddio'r sianelau cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd i gysylltu â'r cyhoedd. Mae rhwydweithiau cymdeithasol fel Facebook yn cael eu defnyddio gan bron i dri o bob pump o'r holl seneddau, cynnydd o 80% ers 2012. Yn ôl yr adroddiad, y tri phrif amcan ar gyfer seneddau wrth gyfathrebu â dinasyddion yw:

1

Hysbysu pobl am bolisi a deddfwriaeth arfaethedig

74%

2

Egluro beth y mae'r senedd yn ei wneud

64%

3

Cynnwys mwy o bobl yn y broses wleidyddol

62%



Mae Senedd Ewrop wedi datblygu sawl ap Facebook y gellir eu defnyddio i gysylltu'r cyhoedd yn uniongyrchol â'u Haelodau Ewropeaidd. Ond eto, nid yw'r cynnydd hwn yn y traffig cymdeithasol yn lleihau gwerth y wefan seneddol a gellir defnyddio ffynonellau cymdeithasol i yrru traffig i gynnwys cyfoethocach a mwy cymhleth ar-lein.

Sianelau ychwanegol yw'r rhwydweithiau cymdeithasol a chymwysiadau fel negeseuon sydyn, nid sianelau i gymryd lle'r rhai arferol. Mae offer soffistigedig ar ystadau gwe seneddau Brasil a Chile ar gyfer cynnwys dinasyddion yn uniongyrchol wrth graffu ar ddeddfau drafft a'u diwygio.

Mae offer fel Twitter a WhatsApp yn cael eu defnyddio fwyfwy ac mae Aelodau, yn ogystal â sefydliadau, yn mabwysiadu platfformau cymdeithasol newydd yn gyflym. Mae Pwyllgorau Senedd y DU yn gwneud defnydd helaeth o'r offer hyn i ddenu cyfranogiad ehangach.

Mae'r Pwyllgorau hefyd yn fwyfwy tebygol o ddefnyddio offer digidol a chymdeithasol er mwyn cysylltu â dinasyddion. Mae cynnydd o ran defnyddio hyn i ddenu cyfraniad i ymchwiliad neu fater yn ogystal â chyhoeddi. Mae pwyllgorau un rhan o dair o seneddau yn caniatáu cyflwyno sylwadau ar-lein. Rhaid i ymgysylltu effeithiol gael ei gefnogi gan

wybodaeth ac mae 60% o seneddau o'r farn y bydd cyhoeddi data mewn fformat agored, fel y gall eraill ei ddefnyddio, ei aildefnyddio a'i ail-ddosbarthu, yn arwain at welliannau pwysig. Bu cynnydd sydyn yn nifer y seneddau sy'n cynnig data agored yn ogystal â dogfennau agored i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae'r dull o gyhoeddi agored yn amrywio. Mae seneddau sydd â llawer o adnoddau, fel Senedd yr Eidal, wedi creu eu storfeydd helaeth eu hunain, tra bod eraill, megis y Weriniaeth Tsiec, yn gweithio gyda chyrff anllywodraethol digidol i gyhoeddi eu data.



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU – CREU CYNNWYS

Mae ein hadroddiad yn awgrymu newidiadau y dylai'r Cynulliad eu gwneud, yn ein barn ni, i olwg a naws ei wybodaeth a'i gynnwys digidol.

Wrth gynnwys, rydym yn golygu unrhyw ddeunydd sy'n cael ei greu gan y Cynulliad cyfan – mae hyn yn cynnwys adroddiadau, ymchwil, tystiolaeth, Cofnod y Trafodion, y calendr, Senedd TV, archifau a ffilmiau eraill. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ei Aelodau, ei bwyllgorau, y Gwasanaeth Ymchwil, staff Comisiwn y Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn

creu cynnwys mewn amrywiaeth o fformatau – print, fideo, sain, ar-lein – bob dydd.

Mae llawer o'r deunydd a gaiff ei greu gan y Cynulliad ar gael i'r cyhoedd, er ei fod wedi'i gladdu yn hierarchaeth bensaernïol gwefan y Cynulliad. Wedi dweud hynny, mae mwy a mwy yn cael ei ddarparu ar sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad ei hun. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Comisiwn i sicrhau cartref parhaol i archifau'r Cynulliad drwy weithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gan

fod y rhain yn adnoddau cyhoeddus argymhellwn eu bod yn cael eu darparu ar ffurf ddigidol fel y gall unrhyw un sy'n dymuno'u canfod, eu defnyddio a'u rhannu gael gafael arnynt yn hawdd.

Gallai rhywfaint o'r deunydd sydd, hyd yma, wedi cael ei ystyried yn gyfrinachol i'r Aelodau, fel crynodebau pwyllgor o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, fod ar gael i'r cyhoedd. Dim ond amrywiaeth gyfyngedig o ddeunydd archifol sydd ar gael ar Senedd TV.

Mae nifer o fentrau creadigol diweddar y Cynulliad i hyrwyddo ei waith wedi creu argraff dda arnom. Rydym yn hoffi tôn y llais a fabwysiadwyd gan rai o'i sianelau cyfryngau cymdeithasol ac mae ansawdd y graffeg, y gwaith

animeiddio a fideo i gyfleu negeseuon allweddol a mentrau cysylltiadau cyhoeddus yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau'r cyfryngau cenedlaethol.

Ond gellid gwneud llawer mwy i wneud yn fawr o effaith y Cynulliad, sy'n sefydliad hynod gyfoethog ei gynnwys, er mwyn cyflawni ei nod o ymgysylltu â holl bobl Cymru. Ein safbwynt ar y dechrau'n deg yw'r egwyddor y dylai data fod yn agored ac yn hygyrch, a hynny fel mater o drefn.

Ar y Cynulliad fel sefydliad y mae sylw'r adroddiad hwn, yn hytrach nag ar y cynnwys y mae Aelodau Cynulliad unigol yn ei greu. Er hynny, bydd rhai o'n hargymhellion yn uniongyrchol berthnasol i Aelodau unigol hefyd.



ADRAN 2: TRAFODAETH

Y CYNULLIAD FEL PLATFORM CYNNWYS

Mae'r Cynulliad yn sefydliad prysur iawn o ran creu cynnwys. Bob dydd, mae'n cynhyrchu swmp sylweddol o ddeunydd sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau, a hwnnw wedi'i greu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyfoeth hwn o wybodaeth, mae'n bwysig meddwl am y Cynulliad fel curadur, ond mae'r un mor bwysig meddwl amdano fel platfform dosbarthu hefyd.

Am y rhesymau hyn, trafodwyd y posibilrwydd o ailddychmygu'r Cynulliad ei hun fel platfform cynnwys. Yn hytrach na gadael i ddiffygion y cyfryngau yng Nghymru ein digalonni, mae'r meddylfryd newydd hwn yn agor y drws i gyfleoedd newydd cyffrous i'r Cynulliad gyrraedd cynulleidfaoedd yn uniongyrchol.

Mae hoelion wyth traddodiadol y cyfryngau, sef y teledu, y radio a'r wasg, yn dal yn bwysig, ond nid hwy bellach yw'r unig chwaraewyr ar y cae. Mae gan gyrff fel y Cynulliad Cenedlaethol opsiwn i fuddsoddi mewn adnoddau i becynnu a gwthio eu cynnwys yn uniongyrchol i'r platfformau y mae cynulleidfaoedd eisoes yn eu defnyddio.

Credwn y dylai'r Cynulliad arwain y ffordd a sefydlu gwasanaeth cynnwys integredig i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru. Rydym yn awgrymu sefydlu tîm bach o newyddiadurwyr dan arweiniad golygydd profiadol a diduedd sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys am y straeon sy'n deillio o'r Cynulliad, a hwnnw wedi'i becynnu mewn ffordd sydd addas i blatfformau digidol. Dylai hyn gael ei gyflwyno fel gwasanaeth newyddion digidol a ddosberthir gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill (fel cylchlythyrau e-bost pwrpasol) i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ledled Cymru. Credwn y gallai'r gwasanaeth hwn hefyd ddarparu deunydd defnyddiol ar gyfer ugeiniau o gyhoeddiadau newyddion lleol a hyperleol o amgylch Cymru. Dylid defnyddio'r straeon hyn i ddenu cynulleidfaoedd yn ôl at Senedd TV a gwefan y Cynulliad ar ei newydd wedd a fydd yn archifau ar gyfer straeon am y man lle gwneir y gwaith o graffu ar Lywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif - Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



DWEUD STRAEON Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

ARDDULL – RHOI POBL YN GYNTAF

Y Cynulliad yw conglaen democratiaeth iach yng Nghymru – felly mae’n rhaid iddo feddwl yn greadigol am effaith ymarferol ei holl ddadleuon, ei benderfyniadau a’i weithredoedd ar y bobl y mae’n eu cynrychioli, a dysgu cyfathrebu ei waith o’u safbwynt hwy. Dylid ceisio rhoi pobl – yn hytrach na’r sefydliad a’i brosesau – wrth wraidd straeon newyddion amserol ac anelu at wneud cysylltiad emosiynol. Can fod y Cynulliad yn bodoli i gynrychioli

pobl Cymru, ymddengys y byddai’n rhesymol manteisio ar bob cyfle i ystyried y bobl hynny wrth esbonio busnes, strwythurau neu waith llunio polisi’r Cynulliad. Dylai’r ffocws golygyddol fod ar bynciau amserol a sut y gall ein sefydliadau democrataidd wasanaethu’r bobl i fynd i’r afael â’r pynciau hyn, yn hytrach na bod am y sefydliad ei hun. Dylid ystyried y cwestiwn “Pam mae hyn yn bwysig i mi neu fy nghymuned?” bob amser wrth greu cynnwys.

Caiff hyn ei gefnogi gan adborth a gawsom o wahanol ffynonellau. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu fod y Cynulliad Cenedlaethol, ar y cyfan, wedi’i drefnu o amgylch ei anghenion ei hun fel sefydliad, yn hytrach nag anghenion yr etholwyr.

Er enghraifft, dywedodd athrawon wrthym yn bendant fod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddeall a chydymdeimlo â chynnwys sy’n canolbwyntio ar faterion y maent wedi cael profiad ohonynt. Awgrymodd y rhan fwyaf o’r rhai a ymatebodd i’n harolwg o’r cyfryngau fod astudiaethau achos lleol yn hanfodol i’r ffordd y byddai eu darllenwyr yn cysylltu â stori am fater cenedlaethol. Hyd yn oed pe na byddai gan bobl ddiddordeb yn y felin ddyddiol o wleidyddiaeth yn y Cynulliad, byddai ganddynt ddiddordeb mewn straeon sy’n

rhoi’r sylw pennaf i bobl. Gallai eu diddordeb yn hynny fod yn ffordd o roi gwybod iddynt am wleidyddiaeth. Yn benodol, mae’n bwysig bod pobl yn deall pa faterion sydd wedi’u datganoli a pha rai nad ydynt, a gall straeon fel hyn fod yn fodd o gyfleu’r neges honno mewn ffordd ddifyr. Drwy ddangos sut y mae gwaith y Cynulliad yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru, gall y sefydliad bontio’r ymdeimlad o bellter daearyddol rhyngddo’i hun a rhannau eraill y wlad.

Mae llawer o waith y Cynulliad yn addas iawn i’r math yma o hanesion ac iddynt elfen ddynol. Yn wir, fe all y Cynulliad fod yn tanwerthu ei hun – efallai y bydd y cyhoedd yn ymateb yn dda iawn i gipolwg y tu ôl i’r llenni ar y ffordd y mae’r Cynulliad yn gweithio, beth yn union yw gwaith



Aelodau Cynulliad, a pha gymorth y mae'r staff yn ei roi iddynt i'w cynorthwyo yn hynny o beth.

Mae ymchwiliadau Pwyllgor yn cael tystiolaeth gan amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, arbenigwyr polisi, ac - yn fwyfwy aml - sampl gynrychiadol o bobl yr effeithir arnynt gan y polisi neu'r mater y mae'r pwyllgor yn craffu arno. Mae hyn yn gyfle i'r Cynulliad greu straeon sy'n dilyn trywydd y drafodaeth, yr effaith y mae cyfraniad pobl wedi'i chael ar ystyriaethau'r pwyllgor ac i hyrwyddo'r ffyrdd y gall pobl gyfrannu at y broses.

Dylid mynd ati'n frwdfrydig i gofnodi astudiaethau achos fel mater o drefn a chreu straeon newyddion o safbwynt y rheini y mae gwaith y Cynulliad yn effeithio arnynt. Er enghraifft, gellid gwneud hyn drwy ffilmio darnau byw, byr, i gamera ar ôl cyfarfod gyda chadeirydd y pwyllgor a'r rhai sy'n bresennol, gan ofyn cwestiynau syml fel "Sut aeth pethau? Yn ôl y disgwyl? Ydych chi'n meddwl y cawsoch chi'r effaith yr oeddech chi'n gobeithio amdani? Beth sy'n digwydd nesaf?", ond hefyd gofyn am y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud a hyd yn oed achosion pan fu'n rhaid cyfaddawdu. Credwn y byddai ymyrraeth fel hyn, yn ogystal ag apelio at y cyhoedd sydd eisoes yn ymgysylltu â'r Cynulliad, hefyd yn apelio at y rheini sy'n credu bod ganddynt ychydig neu ddim

diddordeb mewn gwleidyddiaeth, gan roi'r cyfle iddynt ymgysylltu â gwaith y Cynulliad am y tro cyntaf.

Mae'r un egwyddor yn wir wrth adrodd hanes y Cynulliad Cenedlaethol. O gyfreithiau Hywel Dda i'r chwyldro diwydiannol, mae seiliau'r Cynulliad i'w gweld mewn hanes cyffredin a fydd yn apelio at ddychymyg ac ymdeimlad pobl o berthyn. Hefyd, mae diffyg gwybodaeth am ddiben y sefydliad, ei bwerau a'i berthynas â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Senedd y DU. Mae deall y cysylltiadau, y gwahaniaethau a'r berthynas waith rhwng y Cynulliad a'r sefydliadau hyn yn gwbl hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r diffyg o ran gwybodaeth ddemocrataidd a ddaeth i'r amlwg mewn cyfres o arolygon data etholiadol. Nid oes digon o bobl yn gwybod sut y mae'r Cynulliad yn gweithio, beth y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud a sut y mae Deddf Cymru 2017 yn ehangu ei bwerau, er enghraifft. Gall fod yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth hon mewn print, ar-lein ac ar yr ystâd, ac mae defnyddwyr yn aml yn teimlo nad oes digon o greadigrwydd a dychymyg yn perthyn i'r cynnwys sydd ar gael. Dylid ystyried defnyddio fideos gyda sêr, y cyhoedd a defnyddwyr, graffeg a lluniau i egluro'r cynnwys hwn fel eu bod yn addas ar gyfer unrhyw fformat neu blatfform.

IAITH

Mae mwy o frandiau nag erioed o'r blaen yn cystadlu am le ar sianelau newyddion a gwybodaeth. Heddiw, mae seneddau yn cystadlu gyda chorfforaethau amlwladol, asiantaethau anllywodraethol rhyngwladol a'r cyhoedd am amser a gweledd. Mae galluogi'r cyhoedd i adnabod eich sefydliad, deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn gyflym a'u grymuso i weithredu yn gwbl hanfodol os ydych am oroesi a ffynnu. Mae angen i'r Cynulliad wneud yn siŵr ei fod yn mabwysiadu'r dull hwn o weithredu.

Yn y cyd-destun hwn, newid arall y dylai'r Cynulliad ei ystyried er mwyn iddo allu ymgysylltu'n well â'r cyhoedd yw defnyddio iaith y gallant ei ddeall. Bydd copi clir a chryno yn helpu cynulleidfaoedd i gael hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt, a'i ddeall, fel eu bod yn gallu rhannu'r wybodaeth honno. Credwn fod y newid hwn yn hanfodol er mwyn gwneud y Cynulliad yn fwy agored ac mae'n berthnasol i'r Gymraeg a'r Saesneg ill dwy, fel ieithoedd swyddogol y sefydliad.

Gall peth o'r iaith a ddefnyddir gan seneddau fod yn fygythiol i gynulleidfa allanol – galw tystion i roi tystiolaeth er enghraifft. Mae angen i'r Cynulliad wahaniaethu rhwng yr adegau y mae'n cyfathrebu â chynulleidfa fewnol a'r adegau y mae'n cyfathrebu â chynulleidfa allanol. Yn achos cynulleidfa allanol, dylid defnyddio iaith hygyrch a llunio esboniadau byr i gyflwyno ystyr terminoleg ffurfiol. O bryd i'w gilydd, mae sefydliadau yn cymryd mai dim ond i gynulleidfa iau y mae angen esbonio jargon fel hyn, ond mae ein profiad yn dangos bod modd trosglwyddo hyn yn hawdd i grŵp ehangach a bod yr effaith yn gadarnhaol dros ben.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn awgrymu bod y Cynulliad yn adolygu'r canllawiau am y dôn y mae'n ei defnyddio yn ei holl sianelau cyfathrebu. Fel mynegiant o werthoedd, personoliaeth a ffordd sefydliad o feddwl, gall tôn y llais gael effaith sylweddol ar yr allu i gysylltu â chynulleidfaoedd. Os caiff hyn ei reoli'n ofalus, gall y dôn amrywio yn dibynnu ar y sianel, fel y gall cyfrifon corfforaethol fabwysiadu tôn mwy ffurfiol na sianelau sy'n anelu at ymgysylltu ag ymwelwyr neu dwristiaid er enghraifft. Rydym yn cydnabod nad yw cyfrifon Twitter corfforaethol ac ieuenctid y Cynulliad ofn defnyddio hiwmor neu dôn hamddenol pan fydd hynny'n berthnasol i'r pwnc dan sylw. Dylid gosod canllawiau clir yn nodi'r pethau i'w gwneud, y pethau i'w hosgoi, y cyfleoedd a'r anfanteision sydd ynghlwm â'r gwahanol ddulliau gweithredu fel bod staff presennol a newydd yn gallu cyfathrebu'n hyderus fel cenhadon sefydliadol.





PLATFFORMAU

GWEFAN Y CYNULLIAD

Er y bydd pobl yn ymgysylltu fwyfwy â'r Cynulliad i ffwrdd o'r wefan, mae'n parhau i fod yn rhan hanfodol bwysig o'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cyfathrebu. Mae'r wefan yn seilwaith hanfodol, a dylid ei thrin yr un mor bwysig â'r ystâd ffisegol.

Mae'n rhaid cynllunio trefn wybodaeth y safle o amgylch y defnyddiwr, yn hytrach nag adlewyrchu strwythur y Cynulliad. Yn rhy aml, mae cynnwys yn cael ei ddisgrifio neu ei labelu mewn ffyrdd sydd ond yn gwneud synnwyr i'r rhai sy'n ei ddeall. Mae angen i'r Cynulliad gymryd cam yn ôl ac ystyried yr amryfal ffyrdd y gallai pobl fod yn meddwl am bwnc a dechrau defnyddio amrywiaeth ehangach o offer a thechnegau i sicrhau ei bod yn haws i gynulleidfa ehangach ganfod popeth sy'n cael ei gynhyrchu.

Rhaid i'r tacsonomi (y ffordd y caiff cynnwys ei ddosbarthu a'i drefnu yn gategorïau ac is-gategorïau) adlewyrchu sut mae pobl fwyaf tebygol o ddod o hyd i gynnwys. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at bynciau technegol (neu gyfreithiol) cymhleth mewn iaith glir a dylid sicrhau bod modd chwilio drwy bob un. Rhaid wrth bobl i gategoreiddio a thagio gwybodaeth, ac felly rhaid i unrhyw un â chyfrifoldeb dros greu neu gyhoeddi unrhyw fath o gynnwys (boed yn fideo, sain, delweddau neu gynnwys ysgrifenedig) ddeall y rheolau ymgysylltu i wneud cynnwys yn hygyrch ac yn hawdd ei ganfod.

Dywedodd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein y Cynulliad wrthym pa mor anodd a rhwystredig yw chwilio am wybodaeth, gan ei bod yn aml wedi'i gwasgaru ar draws y wefan. Cydag amser, mae cynnwys y Cynulliad wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i gyd-fynd â strwythur mewnol y sefydliad ac yn sgil hynny mae'r wybodaeth yn wasgarog ac anghyson. Er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ganfod y cynnwys, mae'n hanfodol bod pensaernïaeth y wefan yn cael ei datblygu mewn modd sy'n gwneud synnwyr i ddefnyddwyr yn hytrach na bod yn seiliedig ar strwythur y sefydliad. Mae angen i'r Cynulliad weithio tuag at ddarparu profiad di-dor i ddefnyddwyr rhwng pyrth y we fel bod yr ystâd ar-lein yn fwy cydgysylltiedig. Er mwyn gwneud hyn, rhaid bod cysylltiad ystyrlon rhwng yr holl byrth a'r cynnwys, yn enwedig lle bo cyfle i hyrwyddo cynnwys perthynol, a rhaid i systemau ar ôl prosesu 'siarad' â'i gilydd fel bod modd canfod cynnwys yn hawdd.

Mynegodd y defnyddwyr bryderon hefyd ynghylch y diffyg cysondeb a chywirdeb wrth gyhoeddi gwybodaeth fusnes, er enghraifft: Pam mae'r amserlenni ar gyfer blaenraglenni gwaith y pwyllgorau yn amrywio? Pam nad yw gwybodaeth am y grwpiau trawsbleidiol yn cael ei chyhoeddi'n ganolog? Pam nad yw'r atebion a'r cwestiynau ysgrifenedig yn cyfateb a pham nad oes ffordd o archebu ar-lein ar gyfer digwyddiadau a noddir gan Aelodau Cynulliad?

Dylid cynnwys storfa o luniau a fideos sydd ar gael dan drwydded agored ar wefannau'r Cynulliad at ddefnydd cyhoeddus a masnachol. Dylai hyn gynnwys lluniau amrywiol o bob Aelod Cynulliad (ffurfiol ac anffurfiol), yn ogystal â ffilmiau o'r awyr a ffotograffau o adeilad y Senedd ei hun.

MAE'R ATEBION POSIBL A GYNIGIWYD GAN DDEFNYDDWYR FEL 'CAM CYFLYM' A FYDDAI'N GWELLA'R PROFIAD AR UNWAITH YN CYNNWYS:

- Creu rhagolwg newydd tymor hwy yn cyflwyno popeth sy'n digwydd ar draws y Cynulliad ar gyfer y diwrnod, yr wythnos neu'r mis ar un dudalen yn hytrach na gorfod chwilio drwy'r system calendr, gyda chalendr/canllaw clir a chynhwysfawr yn dangos yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad ar dudalen lanio'r wefan.
- Adeiladu ar yr hyn a ystyrir yn ailwampio llwyddiannus o dudalennau'r Aelodau, drwy gyfuno'r wybodaeth berthnasol am eu gwaith (cwestiynau llafar ac ysgrifenedig a ofynnwyd, cyfraniadau at drafodaethau) ar eu tudalennau. Rydym yn falch o ddeall y bydd y rhaglen FySenedd yn gwneud hyn ym mis Medi.
- Creu cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar fusnes y Cynulliad a chyflwyno gwybodaeth yn unol â hynny, e.e. rhoi'r cwestiynau ysgrifenedig a'r atebion a ddarparwyd ar yr un dudalen.
- Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am eich amserlenni ar gyfer cyhoeddi fel lleiafswm er mwyn rheoli disgwyliadau.
- Darparu manylion cyswllt mwy o staff fel bod y cyhoedd yn gallu cysylltu'n uniongyrchol ag ymchwilyr, staff pwyllgorau, staff allgymorth a staff cyswllt cyntaf.

Rydym yn argymhell ymchwilio i'r atebion hyn cyn gynted â phosibl fel bod modd i'r Cynulliad wybod yn bendant y caiff ei sianelau ar-lein eu cyfrif yn ffynonellau dibynadwy o wybodaeth.

Rydym hefyd yn argymhell bod y Cynulliad yn datblygu fframwaith gwerthuso soffistigedig i fesur sut mae cynnwys yn cael ei ddefnyddio er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ac er mwyn parhau i wella.

SENEDD TV

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella Senedd TV sy'n cynnwys gwelliannau a fydd yn datrys problemau sylfaenol o ran ei hygrdedd, fel dibynadwydd y gwasanaeth. Os yw am barhau i fod yn un o gonglfeini strategaeth gyfathrebu'r Cynulliad, rhaid i'r hyn y mae'n ei ffrydio fod yn agored a glân, ac yn hawdd i'w chwilio, ei olygu, ei lwytho a'i fewnblannu. I wneud hyn, rhaid i'r Cynulliad ddatblygu offer sy'n gweithio gyda Senedd TV er mwyn galluogi pobl i ganfod a chlipio ffilmiau'n gyflym er mwyn eu cynnwys mewn pecynnau fideo neu eu mewnblannu ar dudalennau Aelodau, gwefannau allanol a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ffordd y caiff datganiadau 90 eiliad y Cynulliad eu golygu a'u cyhoeddi ar dudalen Facebook y Cynulliad yn enghraifft dda o gyrhaeddiad ac effaith bosibl clipiau fideo byr. Y fideo Cynulliad a gafodd ei wyllo amlaf hyd yn hyn yw datganiad 90 eiliad am ailenwi Aberteifi (Cardigan) yn 'Jumper' i hyrwyddo Diwrnod Siwmperi Nadolig Achub y Plant ym mis Rhagfyr 2016.

Cynnwys cychwynnol yw hwn y bydd pobl yn ei wyllo a'r math o gynnwys yr hoffai darparwyr newyddion a chynnwys allanol ei gyhoeddi (gan gynnwys Aelodau Cynulliad a newyddiadurwyr hyperleol), ond rydym yn gwybod na fu ei gynhyrchu yn waith hawdd, hyd yn oed i swyddogion y Cynulliad sydd â mynediad uniongyrchol i'r dechnoleg. Dylai unrhyw newidiadau i Senedd TV yn y dyfodol ystyried anghenion a dymuniadau defnyddwyr ar ddechrau'r broses.

Mae'r Cynulliad hefyd yn gweithio ar ddarlledu trafodion yn fyw ar sianelau cymdeithasol fel Facebook Live, a lansiwyd Cyfarfodydd Llawn byw ar YouTube ar ddechrau tymor yr haf 2017. Bydd hyn yn darparu sianel ddarlledu fyw, amgen a dibynadwy, ar gyfer y Cynulliad a fydd yn gwneud ffilm yn fwy hygyrch a haws ei rannu. Mae hefyd yn golygu y bydd trafodion yn cael eu darlledu'n fyw ar blatfform sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan dros 1.3 biliwn o bobl, gan gynyddu'n sylweddol y siawns o gyrraedd mwy o bobl.



SIANELAU CYFRYNGAU
CYMDEITHASOL

Dylai'r Cynulliad ystyried adolygu strwythur ei sianelau cyfryngau cymdeithasol. Efallai bod rheoli 50 cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn edrych yn drawiadol ar adroddiad rheoli perfformiad, ond a oes tystiolaeth i gefnogi'r honiadau eu bod i gyd yn angenrheidiol? A oes ffordd well o becynnu gwybodaeth am 'iechyd' mewn un man sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol y pwyllgor, y Gwasanaeth Ymchwil a'r Cyfarfod Llawn?

Mae'r dystiolaeth o'r arolwg dadansoddi anghenion defnyddwyr a gynhaliwyd gan y Cynulliad, mewn ymateb i'r cwestiwn "Beth allwn ni ei wneud i annog mwy o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad?" yn awgrymu fod "Mwy o bresenoldeb yn y gymuned" yn flaenoriaeth i lawer. O'r herwydd, rydym yn annog y Cynulliad i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu, ac nid dim ond at ddibenion darlledu, a dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyfrannu at y sgysiau presennol yn hytrach na cheisio arwain rhai newydd o hyd. Dylai'r Cynulliad ddod o hyd i sgysiau a chymunedau ar-lein (fel Mumsnet yn ogystal â grwpiau lleol a grwpiau sy'n trafod pynciau penodol) a chymryd rhan. Dylai hefyd ddefnyddio hysbysebion ar-

lein pwrpasol i gasglu cyfraniadau ar gyfer gweithgareddau (arolygon, pwyllgorau, ac ati). I gefnogi hyn, dylai'r Cynulliad fuddsoddi mewn dulliau clyfar ar gyfer dadansoddi'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn iddo gael llif cyson o wybodaeth a dealltwriaeth am bynciau llosg a sgysiau ar-lein sy'n berthnasol i'w gynnwys ei hun.

Mae hefyd yn bwysig cau'r ddolen adborth ac mae angen i'r Cynulliad fod yn fwy effeithiol o ran annog a chydabod gwybodaeth sy'n ei gyrraedd. Wrth i'r Cynulliad greu mwy o gyfleoedd i bobl gyfrannu yn hawdd at ei gwaith, mae hefyd angen i'r dinasyddion gael eu canmol - nid dim ond gwleidyddion - a rhaid manteisio ar bob cyfle i ddangos bod rhywun wedi gwrando ar eu cyfraniad, a lle bo'n berthnasol, ei fod wedi gwneud gwahaniaeth. Bydd hyrwyddo'r straeon hyn yn ei dro yn annog mwy o ymgysylltiad, oherwydd bydd dinasyddion yn teimlo bod eu mewnbwn yn cael ei werthfawrogi, ac felly bod diben gwneud cyfraniadau.

Bydd y dirwedd ddigidol yn parhau i ddatblygu a bydd cynulleidfaoedd y Cynulliad yn mabwysiadu sianelau newyddion a phlatfformau newydd. Mae angen i'r Cynulliad groesawu hyn a datblygu diwylliant digidol gyda'r agwedd a'r sgiliau iawn i addasu i'r newid parhaus hwn.



Dilynwyr Twitter ar gyfrifon
@cynulliadcymru ac
@assemblywales:

43,730



Cyfanswm y cyfrifon
Twitter:

46



Cyfanswm dilynwyr
Instagram y Senedd:

1,495



Cyfanswm dilynwyr
Instagram Dy Gynulliad:

146



Y cyfartaledd a gyrhaeddir ar
Facebook bob mis:

5,197



Y cyfanswm sy'n 'hoffi' y
dudalen Facebook:

8,533



Cyfartaledd yr ymwelwyr
â'r wefan ar gyfartaledd
bob mis:

44,085



Cyfartaledd y munudau a
wylwyd ar sianel YouTube
y Cynulliad:

8,061



Cyfartaledd defnyddwyr
Senedd.tv bob mis:

4,722



CYNULLEIDFAOEDD ARBENIGOL

Y CYFRYNGAU

Os yw'r Cynulliad ei hun yn blatfform cynnwys, mae'n gwneud llai a llai o synnwyr i feddwl bod angen cymorth ar y cyfryngau sefydledig sy'n wahanol i gynulleidfaeod eraill. Ein dadl ni yw y dylai'r Cynulliad fel sefydliad gryfhau ei ddulliau uniongyrchol o gyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol. Pe byddai gwybodaeth y Cynulliad yn cael ei phecynnu'n greadigol yn y Cynulliad ei hun byddai hynny o fudd i'r cyfryngau sefydledig hefyd. Bydd sefydliadau cyfryngau sefydledig sydd â digon o adnoddau, fel y BBC ac ITV, yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r deunydd y maent ei angen eu hunain, ond bydd angen cymorth ychwanegol, wedi'i dargedu, ar allfeydd eraill, llai o faint.

Mae'r ymatebion i'n harolwg o'r cyfryngau, a oedd wedi'i gyfyngu i gyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru, yn nodi bod angen uniongyrchol am gopi clir a chryno sy'n ennyn ysbrydoliaeth ac sy'n rhoi crynodeb ar un olwg o adroddiadau cynhwysfawr. Mewn rhai achosion, gofynnwyd hefyd am ddata gweledol (mapiau, ffeithluniau a gwaith animeiddio) i ddangos y canfyddiadau

a mynediad at "astudiaethau achos pobl go-iawn". Mae'r ymatebion i'r arolwg yn awgrymu, er y gallai cynhyrchu cynnwys fideo fod yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gwaith y Cynulliad ar ei sianelau ei hun, na fydd sefydliadau newyddion y rhwydwaith yng Nghymru yn ei ddefnyddio os caiff ei ddarparu.

Mae'r Cynulliad wedi gwneud defnydd da o ddulliau cyfathrebu newydd dros y blynyddoedd, ac roedd, mewn sawl ffordd, ar flaen y gad. Cynhwysodd glipiau sain a fideo yn ei becynnau newyddion yn 2009-10. Fodd bynnag, ni wnaeth rhyw lawer fanteisio ar hyn, felly daeth y gwasanaeth i ben yn fuan, a'i ailgyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol rai blynyddoedd yn ddiweddarach.

Rhaid i'r Cynulliad fanteisio ar bob opsiwn amgen yn lle datganiad i'r wasg fel ffordd o hyrwyddo'i waith. Mae gan fapiau, ffeithluniau, blogiau, a chrynodebau byr y potensial i gyfleu negeseuon anodd mewn ffordd gofiadwy. Mae gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [visual.ons](#), yn enghraifft arbennig o dda o sut y gellir cyflawni hyn. O ddeall hyd a lled y wybodaeth a'r deunyddiau briffio y mae gwasanaeth ymchwil y Cynulliad yn eu llunio, rydym yn argymhell bod allbynnau sydd yn ddata cyfoethog y gwasanaeth hwn yn cael eu cynnwys fel rhan greiddiol o becynnau newyddion a gwybodaeth y Cynulliad yn y dyfodol.

Mae canlyniadau clir ar gyfer tîm Cyfathrebu'r Cynulliad. Mae angen newid



swyddogaeth tîm Cyfryngau'r Cynulliad i ganolbwyntio ar ysgrifennu ar gyfer allfeydd digidol a dosbarthu digidol, gan ei gwneud mor hawdd â phosibl i'r cyfryngau ar draws Cymru roi sylw i'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa leol neu hyperleol, a'r rheini sy'n ysgrifennu am bynciau a meysydd penodol. Mae angen ysgrifennu straeon am Gymru gyfan mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd i allfeydd newyddion ddatblygu agwedd leol. O gofio mai dim ond un cyhoeddwr sy'n trafod Cymru gyfan, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn awyddus i addasu'r stori i gyd-fynd â'u hanghenion cymunedol. Felly, bydd datblygu agweddau cymunedol mewn deunydd sy'n cael ei gyhoeddi yn arbennig o bwysig, yn enwedig i gymunedau fel y gogledd-ddwyrain sy'n teimlo'r un mor ddaearyddol bell o Gaerdydd ag ydynt o Lundain.

Mae angen i'r tîm Cyfathrebu feddu ar sgiliau eraill, fel cynhyrchu cynnwys. Efallai y bydd angen iddo ddargyfeirio amser ac adnoddau oddi wrth gefnogi'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â'r 'felin' ddyddiol o wleidyddiaeth y Cynulliad – pwyllgorau, ac ati – a neilltuo swmp ei adnoddau i geisio cyrraedd y rhan fwyaf sydd â braidd ddim dealltwriaeth, mynediad na diddordeb yn ei wasanaethau ar hyn o bryd. Er mwyn helpu tîm y cyfryngau i arallgyfeirio'i rôl fel hyn, mae angen i staff eraill weld ysgrifennu ar gyfer cyhoeddi fel rhan o'u rôl, y tu hwnt i'r gwaith o ysgrifennu adroddiadau ei hun, gan gael eu hyfforddi ar gyfer ysgrifennu mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys blogiau, erthyglau a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Trafodwyd hefyd sut i gael y sylw gorau posibl ar gyfer cyhoeddiadau pwyllgorau. Mae angen cael proses olygyddol briodol ar gyfer llunio adroddiadau pwyllgor, gyda system grid i drefnu amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau yn ôl cytundeb Comisiynwyr y Cynulliad a chadeiryddion y pwyllgorau. Mae angen i'r Llywydd a'i thîm gael awdurdod uniongyrchol dros y broses hon i wneud penderfyniadau ynglŷn â chyhoeddi sy'n cyd-fynd â strategaeth gyfathrebu gyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae amseroldeb yn bwysig, felly dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r model cyhoeddi. Mae angen mwy o gynllunio ymlaen llaw i wneud y mwyaf o gyfleoedd pan fyddant yn codi a chreu llif cyson o gynnwys amserol.



DYSGU

O'r cychwyn cyntaf, mae'r Cynulliad wedi buddsoddi mewn rhaglen addysg sylweddol gydag allgymorth i ysgolion yng Nghymru. Pobl ifanc yw dinasyddion heddiw a phleidleiswyr yfory. Rydym yn angerddol o blaid cynlluniau'r Comisiwn i sefydlu senedd ieuenctid i Gymru. Bydd yn adeiladu ar y tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc llwyddiannus sydd wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r Senedd Ieuenctid gryfhau perthynas y Cynulliad â phobl ifanc Cymru ymhellach, ac rydym yn credu y bydd gwasanaeth newyddion a gwybodaeth digidol rhagweithiol ac ystyrlon yn hanfodol i'w llwyddiant. Rydym yn deall bod ymgynghoriad y senedd ieuenctid yn ystyried anghenion cyfathrebu'n fanwl ac y bydd y senedd ieuenctid yn eu rhoi ar waith adeg ei sefydlu ddechrau 2018.

Cawsom gyfle i ymchwilio sut y gellid datblygu rhaglen addysg y Cynulliad yn ddigidol drwy drafodaeth gydag aelodau o Gyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, athrawon, a phenaethiaid colegau, ac fe wnaethom elwa o gael aelod o'r Gyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol ar ein Tasglu. Mae'r awgrymiadau isod sy'n ymwneud ag ysgolion yn deillio o ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon a'r adborth diweddar y mae pobl ifanc wedi'i rannu gyda'r Cynulliad ynghylch pa mor dda y maent yn credu y mae'n cyfathrebu am ei waith.

Dylid cael adran benodedig hawdd ei defnyddio ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o storfa adnoddau Hwb, gydag adnoddau ar gyfer addysgu sy'n gysylltiedig ag anghenion y cwricwlwm newydd sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ac athrawon ddefnyddio a chreu deunyddiau a fydd ar gael i eraill ar safle Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o Hwb. Dywedodd un addysgwr wrthym yn benodol i beidio ag anghofio ysgolion cynradd. Dywedodd fod awydd mawr iawn yn y sector cynradd a'i fod yn llawer mwy hyblyg.

Ar gyfer dysgwyr hŷn dylai tîm Cyfathrebu'r Cynulliad feithrin cysylltiadau cryf â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru i'w gwneud yn haws ymgysylltu â'r Senedd ac archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu MOOC (Cwrs Ar-lein Agored Enfawr) am ei waith.

Gan gydnabod bod angen datblygu'r wefan plant a phobl ifanc (www.dygynulliad.org) yn sylweddol, rydym hefyd yn credu y dylai'r Cynulliad ddefnyddio'r platfformau cyfryngau cymdeithasol mwyaf priodol posibl i



Yn ôl y ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae dros 550,000 o fyfyrwyr ysgol ac athrawon yn defnyddio platfform Hwb Llywodraeth Cymru. Mae gan bob ysgol fynediad i'r platfform parod hwn, ac mae dros un rhan o chwech o boblogaeth Cymru yn cysylltu ag ef. Rydym yn credu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol feithrin cysylltiad agos â Hwb.

ymgysylltu â'r gynulleidfa hon yn unol â'r tueddiadau cyfredol – nid dim ond y rhai a ddefnyddir gan swyddogion. Mae ymchwil tueddiadau defnyddwyr diweddar Ofcom yn awgrymu mai'r rhain yw Snapchat, Instagram a WhatsApp, ac rydym yn gwybod bod tua 60% o bobl ifanc bellach yn cael eu newyddion yn y lle cyntaf drwy Facebook. Mae'r oes yn newid yn gyflym a gallai sianelau poblogaidd y flwyddyn nesaf fod yn wahanol i'r rhai presennol, felly mae'r gallu i addasu'n ddigidol yn hollbwysig, yn enwedig os yw'r senedd ieuenctid sydd ar fin cael ei sefydlu am gyfathrebu'i gwaith yn llwyddiannus.

Un mater allweddol i addysgwyr oedd profi cynnwys i sicrhau ei fod yn glir ac yn gofiadwy. Roeddent yn awgrymu y byddai fideos syml ar blatfformau fel YouTube yn esbonio elfennau o'r Cynulliad yn gweithio'n dda ac y byddai cynnwys pobl ifanc yn y broses greadigol yn fuddiol, fel y maent wedi'i wneud yn yr Oireachtas. Mae safle addysg Senedd y DU (www.parliament.uk/education) hefyd yn cynnwys rhai enghreifftiau da o ddeunyddiau y gellid eu creu. Fel opsiwn amgen, awgrymwyd i ni y gallai cynnig

cyfleoedd secondiad i staff addysgu ddatblygu adnoddau ar gyfer y Cynulliad fod yn werth ei ystyried, fel sy'n digwydd yn Senedd y DU. Mae angen i'r Cynulliad gofleidio'r potensial ar gyfer ymgysylltu digidol gan ddefnyddio Skype, FaceTime, Facebook Live a phlatfformau eraill, gan ymgorffori realiti rhith neu realiti estynedig fel y bo'n briodol. Gallai hyn ddigwydd yn y Senedd, y Pierhead neu ar-lein yn yr ysgolion. Gallai ymgysylltu'n well yn y modd hwn gyrraedd cynulleidfa ehangach oherwydd bydd dysgwyr yn mynd â'r ymgysylltiad a'r wybodaeth newydd hon adref i'w teuluoedd a'u cymunedau.

Ym mhob achos, barnwyd ei bod yn hanfodol ymgorffori profiadau pobl ifanc mewn cynnwys print, fideo a sain o gofio pa mor effeithiol yw hyrwyddo rhwng cyfoedion. Rydym yn argymhell bod y tîm addysg yn rhoi anogaeth i ddeunyddiau a gynhyrchir gan fyfyrwyr, gan gynnwys mini-ffilmiau. Yna, gellid gwneud fersiwn arall o'r deunydd hwnnw ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol.

Mae awydd a brwdfrydedd yn y sector am gynnwys ysbrydoledig gan y Cynulliad sydd wedi'i gysylltu'n glir â'r cwricwlwm, yn seiliedig ar brofiadau bywyd go-iawn sy'n cael eu rhannu gan y bobl ifanc eu hunain.



CYMDEITHAS DDINESIG

Mae'r Cynulliad wedi bod ar flaen y gad yn ei waith allgymorth cymunedol, ond os yw am feithrin ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth a hyrwyddo perthnasedd y sefydliad i bobl Cymru, yna mae'n bryd gwneud newid sylweddol i ansawdd ei gyrhaeddiad digidol. Rydym yn credu y gallai'r Cynulliad wella'i bartneriaethau â myrdd o sefydliadau ac unigolion allanol i ledaenu'i gynnwys a sianelu gwybodaeth yn ôl a'i chrynhai.

Rydym yn gweld cynnydd mewn cyfryngwyr newydd y tu allan i seneddau. Unigolion a grwpiau yw'r rhain sy'n gallu cymryd y wybodaeth a'r data y mae seneddau yn eu creu, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, a gwneud synnwyr ohonynt ar gyfer dinasyddion ac ar y cyd â hwy. Mae hybu yn allweddol i strategaeth sianelau a chyhoeddi cynnwys newydd – gweithio gyda phartneriaid i roi cynnwys iddynt sy'n berthnasol i'w haelodau neu eu darllenwyr fel y gallant ei hyrwyddo i'w dilynwyr os ydynt yn credu bod hynny'n briodol.

Dylai'r Cynulliad ystyried sut y mae sefydliadau cymdeithas sifil, hynny yw y gymuned fusnes, yr undebau, y GIG, sefydliadau trydydd sector a llywodraeth leol, yn cyfathrebu'n ddigidol gyda'r cyhoedd a gweithio gyda hwy i ddarparu cynnwys y Cynulliad y gallent fod eisiau ei ddefnyddio ar gyfer eu platfformau cyfathrebu eu hunain. Mae hyn yn golygu chwilio am gyfleoedd i'r sefydliadau hyn gyfathrebu gwybodaeth am y Cynulliad yn ddiffuant ac yn eu harddull eu hunain. Os ydym am feithrin ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth, ac eisiau hyrwyddo perthnasedd y sefydliad i bobl Cymru, yna mae'n bwysig i bobl weld y Cynulliad wrth ei waith, gweld yr hyn y mae'n ei wneud iddyn nhw, a sut y mae'n gwrando ar eu safbwyntiau.



PROFIADAU YMWELWYR

Mae'r Senedd a'r Pierhead yn adeiladau eiconig ac yn atyniadau mawr i dwristiaid. Cyda'i gilydd maent wedi denu dros 188,000 o ymwelwyr ers yr etholiad ym mis Mai 2016. Mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr â'r ddau adeilad ers i'r Senedd agor yn 2006 bellach dros 2 filiwn. Mae Tŷ Hywel yr un mor bwysig, sef lleoliad y ganolfan addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc, gyda Siambr Hywel, siambr drafod y Cynulliad ar gyfer pobl ifanc, yn ganolbwynt iddi.

Dylid manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ddefnyddio'r adeiladau yn gyfrwng i adrodd stori'r Cynulliad. Nid yw adeiladau'r Senedd a'r Pierhead yn cael eu defnyddio'n ddigonol o bell ffordd fel llwyfannau cenedlaethol i

gyflwyno hanes a gwaith y Cynulliad – mae'n rhy hawdd o lawer i ymweld â'r Senedd heb ddysgu unrhyw beth am ei gwaith fel deddfwrfa. Mae'r tywyswyr teithiau yn cynnig profiad personol i'r ymwelwyr hynny sy'n dymuno derbyn y cynnig, ond mae'r seilwaith ategol i'r rheini sy'n dymuno ymchwilio ar eu liwt eu hunain yn annigonol.

Rydym yn gwybod bod pobl yn llai tebygol o wahaniaethu rhwng profiadau digidol a ffisegol gyda sefydliad neu frand. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried y profiad cyfan yn ofalus, yn hytrach nag edrych ar ryngweithiadau yn unigol. Rhaid ystyried y cyd-bwysedd hwn fel rhan o unrhyw strategaeth gynnwys neu ganllawiau arddull, a phryd bynnag y caiff cynnwys ei gomisiynu neu ei gynhyrchu dylid manteisio ar

bob cyfle i adrodd stori'r Cynulliad pryd bynnag y bydd ymwelwyr yn cyrraedd ystâd y Cynulliad.

Dylid meddwl mwy am brofiad ymwelwyr yn y Senedd a'r Pierhead. Mae'r diogelwch yn y Senedd yn amlwg yn hanfodol, ond gellid gwneud mwy i annog ymwelwyr i fynd i mewn, efallai drwy i gyfarchwr fod ar gael i roi sicrwydd i bobl a'u tywys drwy'r broses. Dylid cynnig profiad dysgu deniadol a rhyngweithiol sydd wedi'i brawfesur ar ystâd y Cynulliad, gan ganolbwyntio ar y bobl ac arddangos astudiaethau achos i wneud gwleidyddiaeth yn rhywbeth go-iawn i ymwelwyr.

Gellid taflunio fideos o astudiaethau achos unigol ar y sgriniau gwyrdd o

amgylch y Siambr – byddai hyn yn dod â'r trafodion yn fyw i ymwelwyr ac yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o sut gall ymgysylltu ag aelodau'r Cynulliad sbarduno camau gweithredu sy'n cael effaith. Hefyd, gallai'r Cynulliad ystyried gosod wal fideo er mwyn gallu archwilio sylwadau ymwelwyr ac astudiaethau achos.

Mae realiti rhith a realiti estynedig yn dod yn ddulliau allweddol o arddangos profiadau amlgyfrwng mewn atyniadau ymwelwyr o amgylch y byd. Un syniad radical fyddai gosod camera byw 360° yng nghanol y Siambr. Gan gadw'r camera mor anymwthiol â phosibl, byddai'n caniatáu i'r cyhoedd deimlo eu bod yn y Siambr yn ystod dadl, ar lefel ddaear, yn cael yr un profiad o ddadl ag y byddai un o Aelodau'r Cynulliad.



Rydym wedi ystyried nifer o enghreifftiau rhyngwladol sy'n gwneud defnydd da o dechnoleg i hyrwyddo rheswm sefydliadau dros fodoli a chyfrannu at brofiad rhagorol i ymwelwyr, gan gynnwys y Parlamentarium, sef canolfan ymwelwyr Senedd Ewrop, sy'n gwneud defnydd rhagorol o dechnoleg ar gyfer teithiau.

Mae Senedd y DU wedi buddsoddi mewn canolfan addysg newydd sy'n defnyddio tafluniad 360° a thechnoleg sain i drochi ymwelwyr yn hanes y senedd a'i wneud yn fyw. Yma, mae defnydd deallus o dechnoleg ynghyd â chynnwys llawn dychymyg yn gwneud i adeiladau eiconig â hanes chwedlonol ddod yn fyw.

Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio modiwlau adrodd stori, tafluniadau llawr rhyngweithiol a galwad i weithredu fel rhan o'r pecyn cynnwys ac mae ymwelwyr yn teimlo iddynt fod yn rhan o'r hanes a'u bod wedi cael gwybodaeth.

Wrth i'r defnydd o realiti rhith dyfu dros y blynyddoedd nesaf, byddai mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r camera hwn. Yn ogystal ag arwain at benawdau cadarnhaol i'r Cynulliad am arloesi ar lefel fyd-eang, byddai hefyd yn gwneud i wleidyddiaeth Cymru deimlo'n llawer mwy hygyrch a dynol nag onglau camera sefydlog yn edrych i lawr ar y Senedd, fel a ddefnyddir yn seneddau'r byd ar hyn o bryd, sy'n meithrin ymdeimlad o ddieithrwch a datgysylltiad.

Dylai'r Pierhead ganolbwyntio o'r newydd ar hanes gwleidyddol Cymru. Gellid cadw'r llawr gwaelod ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau eraill, ond gellid datblygu amgueddfa ar y llawr cyntaf. Mae'r trefniant presennol braidd yn ddigyswllt, gyda chyfuniad o arddangosfeydd diddorol, ond gwasgaredig, mewn

cyfres o ystafelloedd bach. Byddai defnydd gwell o'r gofod hwn yn rhoi ymdeimlad o le ac ystyr i'r sefydliad. Mae angen ystyried profiad sydd wedi'i 'guradu' yn well, a hynny mewn ffordd sy'n magu cysylltiad agosach â'r Cynulliad ei hun.

Yn allanol, gellid gwneud mwy o ddefnydd o ystâd ffisegol y Senedd. Gellid gwneud trafodion y Senedd yn fwy gweladwy a hygyrch i bobl sy'n cerdded heibio drwy daflunio'r amserlen a gwahoddiadau i fynd i mewn ar y waliau gwydr ger y fynedfa.

Byddai'r holl syniadau hyn yn dod â'r Cynulliad yn fyw i ymwelwyr neu'r rheini sy'n cerdded heibio.

Dylai'r Cynulliad ystyried pob pwynt cyswllt yn y Senedd a'r Pierhead a thu

hwnt gan edrych ar yr ymgysylltiad sy'n digwydd, ynghyd â'r ffordd y mae hyn yn adeiladu ar waith hirdymor i ymgysylltu'n rheolaidd a meithrin ymddiriedaeth, ac yn cefnogi hynny. Dylid defnyddio'r ystâd i roi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd adael sylwadau, cwestiynau neu awgrymiadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac i gyfrannu at waith y Cynulliad; er enghraifft, mewn bythau fideo. Dylid rhoi cyfle i ymwelwyr rannu data amdanynt eu hunain ar y safle, nodi pynciau llosg sy'n berthnasol i'w hardaloedd neu bwnc sydd o ddiddordeb, er enghraifft iechyd neu addysg, a rhoi caniatâd i gysylltu â hwy wedi hynny drwy gylchlythyrau e-bost. Yn wir, yn fwy cyffredinol, mae angen casglu data am y rheini sy'n ymweld â'r Cynulliad a'r digwyddiadau allgymorth a gynhelir gan amryfal dimau'r Cynulliad.

Yn olaf, roedd aelodau'r Tasglu wedi'u syfrdanu o gael gwybod nad oes gan y Cynulliad strategaeth Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid. Er bod llawer o ymwelwyr yn dod i'r ystâd, mae'r nifer yn fach o gymharu â nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad cyfan bob blwyddyn.

Mae cyrhaeddiad y Cynulliad yn cynnwys rhaglenni helaeth ym maes addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc, allgymorth cymunedol a phresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol, ymwelwyr â gwefannau, dilynwyr cyfryngau cymdeithasol, rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â busnes pwyllgorau, rhaglenni ymchwil academiaidd a phrosesau recriwtio. Drwyddi draw, mae'r Cynulliad yn ymgysylltu â degau o filoedd o bobl bob blwyddyn.

Rhaid cofnodi pob cyswllt yn effeithiol os yw'r Cynulliad am gynnal deialog iach gyda'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Mae hyn yn golygu rhoi cyfleoedd digonol a hygyrch i'r cyhoedd sydd yn ymddiried yn y Cynulliad gyda'i ddata, rheoli'r data'n ddiogel a'u defnyddio i gadw cysylltiad ystyrllon. At y diben hwn, dylai'r Cynulliad roi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid, efallai gan ddechrau gyda system syml, 'oddi ar y silff' i ddatrys yr angen uniongyrchol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cynulliad gasglu gofynion ar gyfer system fwy cynhwysfawr y gellir ei rhoi ar waith yn ddiweddarach. Byddai system sefydliadol yn annog integreiddio ar draws gwasanaethau, yn lleihau'r achosion presennol o ddyblygu ymdrechion, er enghraifft adeiladu nifer o gronfeydd data rhanddeiliaid, ac o bosibl yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

Yn hanfodol, bydd hefyd yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer datblygu perthynas hirdymor rhwng y Cynulliad a phobl Cymru.



2019 - PEN-BLWYDD Y CYNULLIAD YN UGAIN OED

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ugain oed ym mis Mai 2019. Rydym yn argymhell bod yr ugeinfed pen-blwydd yn cael lle canolog mewn ymgyrch i hyrwyddo straeon datganoli, ac yn argymhell i'r Llywydd y dylai ystyried trefnu Gŵyl Ddemocratiaeth Cymru i gyd-fynd â'r pen-blwydd hwn.

Nid ydym yn gwneud unrhyw sylw ar gynnwys yr ymgyrch a'r ŵyl ar hyn o bryd - rhywbeth i eraill benderfynu arno yw hynny. Fodd bynnag, byddai'n drueni colli'r cyfle a ddaw yn sgil yr ugeinfed pen-blwydd.



ARWEINYDDIAETH DDIGIDOL A DATA YN Y CYNULLIAD

Drwy sefydlu'r grŵp hwn, mae'r Llywydd wedi cymryd arweinyddiaeth dros ryngweithio digidol y Cynulliad â phobl Cymru, ac rydym yn argymhell parhau â hyn yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni pob un o'n hargymhellion, mae angen i'r Cynulliad fod yn fedrus ac yn wybodus ynghylch yr arferion digidol gorau diweddaraf ar draws y sefydliad a chyfathrebu'n rheolaidd ynglŷn â chynnydd. Yn benodol, rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am

greu data a chynnwys ar-lein allu defnyddio'r arferion diweddaraf o ran hygyrchedd a pheiriannau chwilio a lle bo'n berthnasol, bod yn hyddysg yn y rheoliadau diogelu data a phreifatrwydd diweddaraf.

Diffinnir data agored gan Open Definition (opendefinition.org) fel a ganlyn: "data that can be freely used, re-used and redistributed by anyone – subject only, at most, to the requirement to attribute and share alike". Er bod Cymru'n gweld cynnydd

mewn diddordeb a thrafodaethau ynghylch data agored, dim ond megis dechrau y mae'r diwylliant i greu ac ymgysylltu â data agored.

Rydym yn cytuno â'r Siarter Data Agored bod data agored yn galluogi llywodraethau, dinasyddion, a chymdeithas sifil a sefydliadau yn y sector preifat i wneud penderfyniadau mwy gwybodus, yn ogystal â gweithio tuag at ganlyniadau gwell ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae bod yn agored gyda data a chynnwys yn golygu mwy na dim ond ei roi ar-lein – mae hefyd yn golygu hyrwyddo'r ffaith ei fod ar gael a bod modd ei ddefnyddio. Rydym wedi adolygu gwaith cyfredol y Cynulliad, ac er bod rhywfaint o ddata ar gael yn agored, nid yw'n hawdd dod o hyd i'r data, cael mynediad atynt na'u defnyddio.

Roeddem yn falch o glywed bod y Cynulliad eisoes wedi dechrau ystyried Strategaeth Data Agored a byddem yn argymhell ei fod yn gwneud newidiadau sylweddol a gweledol i ddangos ei ymrwymiad i hyn.

Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn ymgysylltu ag arbenigwyr yn y maes i lunio'i Strategaeth Data Agored. Byddai newyddiadurwyr data, gwyddonwyr data, y Sefydliad Data Agored (ODI) a Chynllun Masnachwr Teg Gwybodaeth yr Archifau Cenedlaethol (IFTS), WISERD ac ONS oll yn ffynonellau da o arbenigedd. Bydd datblygu'r strategaeth ar y cyd â defnyddwyr sy'n arbenigo yn y maes yn arwain at sefyllfa sy'n canolbwyntio'n well ar ddefnyddwyr.

Mae gan y sefydliad gyfoeth o

wybodaeth ar ffurf lluniau, fideo, data a mapiau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd cyhoeddus Cymru. Credwn y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn haws i bobl y mae'r Cynulliad yn eu cynrychioli.

Er bod y data y mae'r Cynulliad yn eu cynhyrchu braidd yn gyfyngedig o ran cwmpas, mae'n bwysig iawn i gynulleidfa benodol. Mae'r data eu hunain yn 'agored' yn dechnegol ond gellid gwneud mwy i'w gwneud yn fwy hygyrch a defnyddiol i'r rheini sy'n eu defnyddio'n rheolaidd, er enghraifft sicrhau bod yr holl ddata yn agored yn ddiofyn a'u bod yn cael eu tagio a'u darparu drwy ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau (Application Programming Interface – API) agored. O ystyried y gynulleidfa gymharol fach hon, dylid rhoi blaenoriaeth i gydweithrediad agos gyda defnyddwyr proffesiynol a rheolaidd o ddata y Cynulliad, fel darparwyr monitro a newyddiadurwyr ar lefel genedlaethol, lleol a hyperleol.

Aeth y Tasglu i weld un sefydliad o'r fath, News Direct Wales, i ddeall drosom ein hunain sut caiff y data eu defnyddio ac i ystyried yr heriau o gael mynediad atynt yn eu cyflwr presennol. Gwelsom fod angen treulio llawer iawn o amser ac ymdrech yn dod o hyd i ddata a'u caffael â llaw. Mae gwybodaeth mewn silos, yn ogystal â diffyg cysondeb o ran

iaith, fformat a chyhoeddi yn achosi rhwystredigaeth i ddefnyddwyr ac yn arwain at aneffeithlonrwydd.

Mae angen i'r Cynulliad wneud mwy o ymchwil i weld pwy fyddai'n defnyddio ei setiau data agored, sut y byddent yn cael eu defnyddio a pha setiau data y dylid eu blaenoriaethu. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r Cynulliad feithrin perthynas gyda'r gymuned data agored ac ymwneud â hi'n weithredol. Mae Tŷ'r Cwmnïau yn gweithredu fforwm datblygwyr, lle gall cymuned fach o ddatblygwyr sy'n defnyddio'i ddata ofyn cwestiynau i Dŷ'r Cwmnïau a lle gallant rannu syniadau â'i gilydd yn rheolaidd. Cafodd hyn ei groesawu, yn enwedig gan grwpiau sy'n ymgychu am fwy o ddata agored.

Nid oes diben darparu cynnwys a data ar-lein os nad yw pobl yn gwybod eu bod yno a'u bod yn hawdd eu canfod a'u defnyddio. Pan fydd y data'n hygyrch, mae angen i'r Cynulliad lunio cynllun hyrwyddo parhaus ar gyfer defnyddwyr tebygol y data i annog ymwybyddiaeth o ddull gweithredu'r Cynulliad, hyrwyddo setiau data a dangos enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r data fel bod unrhyw gynulleidfa sy'n awyddus i'w defnyddio yn gwybod beth sydd ar gael, ble mae ar gael a

sut i gael mynediad ato mor hawdd â phosibl.

Rydym yn awgrymu fod y Cynulliad yn sefydlu tîm Data Agored ac y dylai weithio'n agos â'r gwasanaeth cynnwys integredig a grybwyllwyd eisoes. Byddai newyddiaduraeth data yn rhan bwysig o'r gwasanaeth hwn, yn cynnig mapiau a delweddau i'r cyhoedd yn seiliedig ar ddata agored a fyddai'n ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd hygyrch, hawdd ei deall a gweledol. Os nad yw data ar gael yn gyhoeddus, byddai rôl i hyn hefyd o ran gofyn am ddata gan bwyllgorau neu gan Lywodraeth Cymru. Gellid cyhoeddi'r data hyn ar borth newyddion y Cynulliad, a gellid hefyd ei gynnig i newyddiadurwyr a'r cyhoedd drwy ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'r strategaeth, dylid rhoi peth ystyriaeth sut i fesur llwyddiant gwaith data agored y Cynulliad. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur cyrhaeddiad ac effaith ei waith, yn hytrach na faint o ddata y mae'n eu dangos. Dylai'r Cynulliad ddilyn dull tebyg – yn y pen draw, dylid barnu'r strategaeth yn ôl sut y mae pobl yn defnyddio'r data yn hytrach na faint o setiau data sydd ar gael.

Er mwyn rhoi lle blaenllaw iddo'i hun yn y maes hwn, mae angen i'r Cynulliad sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth yn fewnol i greu a chyflwyno'r strategaeth data agored orau yn y diwydiant, yn ogystal â dangos ffyrdd arloesol o ddefnyddio data agored y Cynulliad.

GOBLYGIADAU DIWYLLIANNOL – RHOI DEFNYDDWYR YN GYNTAF

Rydym yn cydnabod bod goblygiadau mawr o ran diwylliant a staff yn sgil yr argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Dylai anghenion defnyddwyr fod wrth wraidd y gwaith o ddylunio gwasanaethau newydd. Hyd yn hyn, mae'r gwasanaethau digidol newydd y mae'r Cynulliad wedi'u creu wedi ystyried anghenion a nodau'r Cynulliad yn bennaf, ac fe'u harweiniwyd gan ddewisiadau o ran technoleg. Rydym wedi tynnu sylw at nifer o enghreifftiau sy'n dangos peryglon hyn yn ein hadroddiad a chredwn fod angen i hyn newid.

Wrth wraidd unrhyw strategaeth farchnata neu ymgysylltu dda bydd dealltwriaeth o ran pwy y mae'n ceisio cysylltu â hwy ac at ba ddiben. Wrth greu unrhyw wasanaeth newydd yn y Cynulliad mae angen canolbwyntio'n bendant ar y defnyddiwr terfynol hytrach na bod y gwaith yn canolbwyntio ar y sefydliad. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r Cynulliad fynd yn nes at ei ddefnyddwyr a chadw'n agos atynt. Rydym yn cydnabod bod y Cynulliad yn ymrwmo i newid yn y modd hwn drwy raglen FySenedd. Fel rhaglen o welliannau ymarferol rheolaidd sy'n canolbwyntio ar wella profiad digidol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer pobl Cymru, Aelodau a staff, a chreu profiad mwy diddorol a phersonol i bawb, nod FySenedd fydd sicrhau bod gwybodaeth y Cynulliad yn fwy hygyrch a pherthnasol, ac yn haws ei chanfod, ei rhannu a'i hailddefnyddio.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd arolygon gydag aelodau'r cyhoedd ledled Cymru ac unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â'r Cynulliad yn rheolaidd. Roedd dros hanner yr ymatebwyr heb ddefnyddio unrhyw un o wasanaethau ar-lein y Cynulliad, ac o'r gweddill roedd y mwyafrif wedi defnyddio un neu ragor o wefannau'r Cynulliad (gan gynnwys Dy Cynulliad a Senedd TV). O'r sianelau cyfryngau cymdeithasol, Twitter oedd y mwyaf poblogaidd, ac yna Facebook.

Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cael gwybodaeth am wleidyddiaeth Cymru drwy'r dulliau traddodiadol, fel y teledu, papurau newydd a'r radio yn hytrach nag ar wefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac apiau'r ffonau clyfar. Roedd mwy o ymatebwyr yn chwilio am wybodaeth am wleidyddiaeth yng Nghymru ar y cyfryngau cymdeithasol nag ar wefannau a blogiau. Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr wedi gwylio cyfarfodydd y Cynulliad ar ffurf clipiau byr neu ddarnau hirach.

Daeth sawl thema gref i'r amlwg pan ofynnwyd i bobl am syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau ar-lein y Cynulliad a'r modd y mae'n ymgysylltu â hwy.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y canlynol:

- yr angen i hyrwyddo gwasanaethau'n well;
- gwella trefn y wybodaeth;
- gwybodaeth sy'n hawdd dod o hyd iddi, a defnyddio iaith glir a syml;
- yr angen i hyrwyddo gwaith y Cynulliad yn well;
- ymgysylltu ar lefel leol ac ar faterion lleol;
- rhoi mwy o sylw ar ennyn diddordeb pobl ifanc; a'i
- gwneud yn haws cysylltu â'r Aelodau.

Mae angen i'r Cynulliad ddiffinio'n glir ystyr 'ymgysylltu' ar bob pwynt rhyngweithio. Ceir nifer o fframweithiau i helpu gyda hyn (gwaith i'w wneud, dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, meddwl am ddylunio, dylunio gwasanaeth ac ati), ond y prif gwestiwn i'w holi yw "Beth ydym ni eisiau i'r dinesydd ei wneud – ac yn bwysicach, beth yw'r budd i'r dinesydd – yn ystod y rhyngweithiad hwn?"

Bydd ymrwmo i barhau â'r dull hwn yn sicrhau nad yw safbwyntiau pobl yn cael eu casglu ar ddechrau'r prosiect ac yna'n cael eu trosysgrifo wrth symud ymlaen, ond bod llais defnyddwyr yn cael ei blethu drwy'r broses gyfan ac yn cael ei gadw wrth wraidd pob penderfyniad bob amser.



RHEOLI NEWID

Er bod rhannau o'r Cynulliad wedi mabwysiadu ffordd hyblyg o reoli prosiectau ac yn gwneud gwaith gwych o ran arwain y ffordd i weddill y sefydliad, yn enwedig tîm FySenedd, mae'n rhaid i'r Cynulliad arfer bod yn fwy ystwyth o ran dysgu am yr arferion gorau mewn byd digidol a thechnolegol sy'n prysur newid.

Mae materion a disgwyliadau unigryw yn perthyn i weithio mewn amgylchedd gwleidyddol, yn enwedig o ran atebolrwydd a thryloywder. Gall hyn arwain, a hynny'n ddealladwy, at ddiwylliant o osgoi risg ac amharodrwydd ar y cyfan i fynd i'r afael â'r newydd a'r arloesol. Gall hyn yn ei dro arwain at aneffeithlonrwydd mewnol a'r canfyddiad bod ein sefydliadau democrataidd yn araf i ymateb i newid ac yn colli cysylltiad fwyfwy â'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais o fod yn un e-seneddau gorau'r byd, mae angen i ddiwylliant y Cynulliad sicrhau nad yw proses, gweithdrefn a threfniadau gweinyddol yn rhwystro arloesedd a chynnydd. Mae angen i'r sefydliad ddysgu o'r mudiad Lean Start Up a dod yn hyblyg a datblygu diwylliant o adeiladu > mesur > dysgu fel bod modd datblygu cynhyrchion a gwasanaethau a'u rhyddhau'n gyflym ac yn iteraidd.

O bryd i'w gilydd, bydd hyn yn golygu y caiff cynhyrchion neu brosesau newydd eu cyflwyno nad ydynt yn berffaith ar y dechrau'n deg ac a allai fethu hyd yn oed. Fodd bynnag, rydym yn credu bod angen i'r Cynulliad ddatblygu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu rhoi cynnig ar bethau newydd, a chael eu grymuso i wneud hynny, heb ofni'r canlyniadau os na fydd pethau'n gweithio yn ôl y disgwyl. Mae creu'r amgylchedd hwn yn dibynnu ar fod pobl yn gwybod y gallant fethu'n gyflym a methu'n ddiogel, sy'n llawer gwell na methu ar ôl misoedd o waith drud y tu ôl i ddrysau caeedig.

Mae'r dull hwn yn annog 'ychydig yn aml' yn hytrach na'r 'datgeliad mawr'. Manteision hyn yw ei bod yn llai amlwg pan nad yw pethau'n hollol iawn. Mae hyn yn oed yn arbennig o wir pan fydd gwaith datblygu yn digwydd yn agored a lle mai'r nod yw gwella profiad defnyddwyr. Rydym yn credu y bydd yn haws i'r cyhoedd groesawu gwelliannau bach ond rheolaidd i wasanaethau yn hytrach na gwelliannau mawr yn dilyn cyfnodau hir o ddatblygu.

Mae angen i'r Cynulliad sicrhau bod dulliau digidol yn cael eu hymgorffori yn holl brosesau'r Cynulliad, a meithrin dealltwriaeth bod mwy i ddulliau ddigidol na thechnoleg.

GOBLYGIADAU I STAFF

Mae offer digidol newydd yn cryfhau ac yn gwednewid seneddau. Pan fo Aelodau'n cynnig arweinyddiaeth wleidyddol o blaid bod yn fwy agored a mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion, a phan fo staff yn barod i dderbyn ffyrdd newydd o weithio, mae seneddau'n dod yn fwy hygyrch ac yn fwy effeithlon yn fewnol.

Mae seneddau digidol llwyddiannus o gwmpas y byd yn adlewyrchu'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae systemau rheoli dogfennau yn parhau i gael eu mabwysiadu i gefnogi'r broses ddeddfwriaethol, a daw mwy o ddata agored a chyhoeddi agored ochr yn ochr â hyn.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn sianel gyfathrebu strategol allweddol i seneddau mewn byd digidol sydd bellach yn sicr yn aml-sianel. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i seneddau wybod sut y mae Aelodau'n defnyddio'r dulliau newydd hyn a'r ffordd orau o'u cefnogi. Er gwaethaf dyfodiad y cyfryngau cymdeithasol, e-bost yw'r brif sianel gyfathrebu o hyd i'r rhan fwyaf o Aelodau ac mae gwefannau seneddol yn parhau i fod yn ased craidd o ran darparu gwybodaeth, dogfennau a data.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd lle mae amrywiaeth eang o sgiliau digidol yn hanfodol ar gyfer datblygu cynnwys diddorol. Mae'r rheini'n cynnwys sgiliau dadansoddi data a delweddu, rheoli cynnwys digidol a'i ddosbarthu, datblygu cymwysiadau a meddalwedd, y cyfryngau digidol a dealltwriaeth o dechnoleg sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr. Beth

sy'n dilyn yw rhai o'r newidiadau sefydliadol a diwylliannol yr ydym yn credu y dylai'r rhaglen eu cynnwys i gyflawni ein hargymhellion.

Dylai pob aelod o staff y Cynulliad ystyried ei hun yn gynhyrchydd cynnwys. Rhaid cyfathrebu am unrhyw beth sy'n cael ei gyhoeddi ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn, datganiadau i'r wasg, trydariadau ynghylch oriau agor y Senedd, adroddiadau pwyllgorau, siartiau llif deddfwriaeth a blaenraglenni gwaith gan ystyried y gynulleidfa allanol. Bydd hyn yn effeithio ar rai yn fwy nag eraill. Mae rolau traddodiadol y Cynulliad gan mwyaf yn adlewyrchu'r sefyllfa seneddol ehangach. Fodd bynnag, yn yr oes fodern lle rydym yn ceisio sicrhau bod y Cynulliad yn fwy agored ac yn haws i gael mynediad ato, mae angen i ni ailystyried y diben a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rolau hyn. Er enghraifft, mae clerc pwyllgor bellach yn fwy o reolwr prosiect o bosibl gyda chyfrifoldeb am ystyried allgymorth ac ymgysylltiad o ddechrau'r broses.

Credwn fod yn rhaid i'r Cynulliad sefydlu rhaglen o hyfforddiant gorfodol a pharhaus i helpu'r sefydliad i gyfathrebu'n ddigidol yn llwyddiannus – er enghraifft, yn ogystal â dangos sut i ddefnyddio Twitter, mae hefyd angen dangos sut

i ysgrifennu ar gyfer Twitter er mwyn cysylltu â'r gynulleidfa. Mae angen darparu cyfleoedd i staff ddysgu sut i gyhoeddi agendâu a chofnodion ar dudalennau gwe y pwyllgorau, ond mae hefyd angen sicrhau bod amser i'r timau clericio ystyried y rôl y maent yn ei chwarae o ran creu cynnwys byw ac amserol sy'n berthnasol i raglenni gwaith y pwyllgorau. Fan lleiaf, dylai pob gwasanaeth weithio gyda'i gilydd i gytuno ar gysondeb o ran cynllunio a chyhoeddi cynnwys fel bod y cyhoedd yn gwybod pryd y bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi a ble i ddod o hyd iddi. Mae'n rhaid cadw at y gweithdrefnau a'r canllawiau ar ôl cytuno arnynt. Heb y sicrwydd hwn, mae perygl i bresenoldeb digidol y Cynulliad, sy'n wynebu tuag allan, edrych ddatgymalog, cael ei arwain gan anghenion mewnol ac o bosibl danseilio uchelgais y Cynulliad o ymgysylltu â holl bobl Cymru.

Mae trawsnewid digidol ystyrion yn golygu bod dulliau digidol yn rhan o hanfod y Cynulliad, yn hytrach na bod yn rhywbeth y mae'r Cynulliad yn ei wneud. Mae hyn yn gofyn am fwy nag ymarferwyr angerddol, felly rydym yn argymhell bod y

Cynulliad yn pennu swydd uwch i lywio'r agenda ddigidol. Er mwyn creu diwylliant digidol hyblyg bydd angen arweinyddiaeth gref ar draws y sefydliad, a hynny gan fwy na dim ond y timau Trawsnewid, Technoleg a Chyfathrebu.

Dylid tynnu gweithrediadau, cyfathrebu a thechnoleg dyddiol ynghyd i ddod â dulliau digidol i galon strategaeth weithredol y Cynulliad. Dylai fod aelodau technoleg gwybodaeth penodedig yn y tîm 'Digidol' i sicrhau bod nodau'r ddau dîm yn cyd-fynd â'i gilydd o ran gwasanaethau gwe y Cynulliad.

Nid ar chwarae bach y mae gwneud hyn yn briodol – nid oes ateb hawdd. Mae technoleg yn newid o hyd, felly os yw'r Cynulliad am ymrwymo i wella'n barhaus, yna mae'n rhaid iddo fuddsoddi yn y bobl iawn i arwain y gwaith. Ni ddylai'r Cynulliad danbriso'r amser, y sgiliau arbenigol, yr arweinyddiaeth arbenigol uwch a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'n hargymhellion.



AROS AR Y BLAEN

Dyma'n hadroddiad ni heddiw, ganol 2017. Mae technoleg yn newid a bydd yn datblygu ymhellach, gyda datblygiadau ym maes realiti estynedig a realiti rhith, ym maes deallusrwydd artifffisial a dysgu peirianyddol, ym maes platfformau newydd, ym maes adnabod llais a delwedd ac mewn llawer o ffyrdd eraill. O ganlyniad, dylid cadw llygad parhaus ar argymhellion ein hadroddiad, a dylid rhoi'r cyfrifoldeb penodol am arwain ar hyn i gomisiynydd er mwyn gyrru'r argymhellion ymlaen.

Mae angen i'r Comisiwn ystyried pa ddatblygiadau parhaus sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol, a pha waith ymchwil neu gamau y mae angen eu cymryd nesaf i sicrhau bod y tîm a'r cynnig priodol ar gael o fewn y chwe mis nesaf.

Mae angen cael cynllun gweithredu clir, a chynllun datblygu clir at y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod uchelgais y Cynulliad i fod yn senedd arloesol o'r radd flaenaf yn cael ei adlewyrchu bob amser yn ei wasanaethau digidol.

Gyda chyhoeddi'r adroddiad hwn daw ein gwaith fel Tasglu i ben. Er mai ar y Cynulliad yr oedd sylw ein trafodaethau a'n hystyriaethau, gobeithiwn y bydd ein gwaith ymchwil a'n hargymhellion o fudd i unrhyw un sy'n awyddus i sicrhau gwasanaethau digidol rhagorol, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru.

ATODIADAU

ATODIAD 1: Y CYFARFODYDD A'R TRAFODAETHAU A GYNHALIWYD

Cyfarfu'r Tasglu saith gwaith rhwng mis Hydref 2016 a mis Mehefin 2017.

Cynhaliwyd cyfarfodydd is-grŵp i drafod:

- Newyddiaduraeth,
- Data agored,
- Diwrnod hacio, ac
- Addysg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau gyda'r canlynol:

- Y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Aelodau Public Affairs Cymru
- Uned Wleidyddol BBC Cymru
- Grŵp Dev Slack Caerdydd
- Colegau Cymru

Cynhaliwyd ymweliadau safle a theithiau o amgylch y Senedd a'r Pierhead ddydd Gwener 16 Rhagfyr 2016.

Dydd Gwener 24 Mawrth a dydd Sadwrn 25 Mawrth 2017 cynhaliwyd diwrnod hacio, sef Senedd Lab. Dros

y degawd diwethaf, mae diwrnodau hacio wedi dod yn boblogaidd fel modd i'r unigolion sy'n bresennol fynd i'r afael â dulliau arloesol sydd, gan amlaf, yn ymwneud â themâu neu heriau. Wrth geisio ymbellhau oddi wrth agenda arferol diwrnodau hacio, mae nifer o sefydliadau (er enghraifft Good for Nothing) wedi sefydlu diwrnodau hacio ar gyfer dod â phobl greadigol at ei gilydd ynghyd â datblygwyr ac arloeswyr i ganolbwyntio ar ddatrys problemau a wynebir gan gymunedau lleol yn y byd go-iawn, gan gael effaith lesol, gynyddol ar gymdeithas.

Dyma oedd y dull a ddilynwyd ar ddiwrnod hacio cyntaf y Cynulliad, Senedd Lab. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar drafod, rhannu a dod â syniadau'n fyw a fyddai'n helpu i newid dyfodol diwylliant democrataidd yng Nghymru.

Mae'r manylion am y digwyddiad

hwn yn Atodiad 3. Mae Senedd Lab arall ar y gweill ar gyfer 2018.

AROLYCON

Trafododd aelodau'r grŵp ganfyddiadau arolygon, rhai presennol yn ogystal â rhai a gynhaliwyd yn benodol at ddiben y Tasglu, ac maent wedi cyfrannu at ein hargymhellion. Mae'r arolygon hynny'n cynnwys:

- **Dadansoddiad o Anghenion Defnyddwyr yng Nghymru:** Comisiynwyd y gwaith hwn fel rhan o raglen FySenedd, a rhannwyd y tueddiadau cychwynnol â'r Tasglu. Nod yr arolwg yw sicrhau gwell dealltwriaeth o sut i ddenu mwy o bobl Cymru i ymwneud yn amlach â busnes y Cynulliad, a sut i wella profiad y rhai sydd yn cymryd rhan, yn awr ac yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ledled Cymru.
- **Cyfryngau Cymru:** Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg hwn yn Atodiad 5.
- **Aelodau'r Cynulliad.**

ATODIAD 2: AELODAU'R TASGLU

Leighton Andrews (Cadeirydd)

Mae Leighton Andrews yn Athro Ymarfer mewn Arweinyddiaeth ac Arloesi ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Ef oedd Aelod Cynulliad y Rhondda rhwng 2003 a 2016, ac roedd yn un o Weinidogion Llywodraeth Cymru rhwng 2007 a 2016. Roedd yn un o sylfaenwyr yr ymgyrch le dros Gymru yn refferendwm 1997, a chadeiriodd y grŵp llywio ar gyfer ymgyrch refferendwm 2011. Roedd Leighton yn Bennaeth Materion Cyhoeddus y BBC rhwng 1993 a 1996 ac yn gyfrifol am gysylltiadau'r BBC â Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Cath Allen

Mae gan Cath 27 mlynedd o brofiad mewn sawl rôl gynhyrchu ac arwain yn y BBC. Mae'n gyn Aelod o Fwrdd BBC Cymru ac yn gyn Reolwr-Olygydd ar uned wleidyddol BBC Cymru. Mae hi bellach yn Gyfarwyddwr Cath Allen Associates, cwmni sy'n arbenigo mewn darparu trawsnewid cydweithredol a chreadigol ar gyfer unigolion a thimau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

James Downes

James yw Pennaeth Cynnyrch yn Nhŷ'r Cwmnïau. Chwaraeodd rôl bwysig yn y gwaith o bennu strategaeth ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau digidol, eu cynllunio,

eu datblygu a'u darparu a'u gwella'n barhaus, dros 18 mlynedd. Mae James hefyd wedi datblygu prosiectau digidol trawsnewidiol ar gyfer llywodraeth ganolog, elusennau, y sector cyllid, y sector aelodaeth, y sector treftadaeth, y sector addysg a'r sector modurol.

Ifan Morgan Jones

Ifan yw arweinydd y cwrs newyddiaduraeth yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor. Cyn ymuno â'r Brifysgol, roedd Ifan yn gweithio fel gohebydd ac yna fel dirprwy olygydd i'r cylchgrawn Golwg, a golygydd ar wefan newyddion Golwg 360. Ar hyn o bryd mae'n ymchwilio i effaith technoleg cyfathrebu ar y Gymraeg, gyda sylw arbennig ar y wasg gyfnodol yn y 19eg ganrif a chwyldro digidol y dyddiau hyn.

Valerie Livingston

Gweithiwr proffesiynol ym maes materion cyhoeddus a pherchennog busnes bach yw Valerie; mae ganddi arbenigedd helaeth yn y cyfryngau. Sefydlodd ei chwmni ymchwil gwleidyddol ei hunan yn 2011. Mae'r cwmni, newsdirect wales, yn gohebu ar ddatblygiadau yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n darparu sesiynau briffio polisi i amrywiaeth eang o gleientiaid yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Cyn lansio'r cwmni, roedd

Valerie yn uwch-swyddog y wasg ar gyfer yr SNP yn San Steffan. Mae hi hefyd wedi gweithio yn Senedd yr Alban a Senedd Ewrop, ynghyd â sawl ymgyrch etholiadol. Yn fwy diweddar, mae wedi ymddangos yn rheolaidd fel sylwebydd gwleidyddol ar y BBC, ITV a Channel 4.

Hannah Mathias

Mae Hannah yn arbenigwr ym maes technoleg ac adnoddau dysgu ac yn rheolwr e-ddysgu yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Mae'n gyfarwydd ag adeiladu a gweithredu systemau Moodle a SharePoint 2010. Ei harbenigedd yw technolegau dysgu, eAdnoddau, cyfryngau cymdeithasol, technolegau symudol, golygu fideo, golygu sain, HTML, pensaernïaeth SharePoint, gweinyddu a dylunio Moodle a Web 2.0.

Emma Meese

Mae Emma Meese yn rheoli Canolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd (@C4CJ), sy'n gyfuniad unigryw o ymchwil ac ymarfer i ddatblygu rhwydwaith cryf o newyddiaduraeth hyperleol a chymunedol yng Nghymru. Mae hi hefyd yn cynnal cyfres o gyrsiau byr yng Nghaerdydd, gan roi mynediad i bawb at hyfforddiant o'r safon uchaf yn y cyfryngau digidol a chymdeithasol. Mae Emma hefyd yn annerch nifer o gynadleddau a digwyddiadau, gan gynnwys Cynhadledd Cyfryngau Cymdeithasol Cymru.

Gareth Rees

Datblygwr Meddalwedd yn mySociety yw Gareth. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar Alaveteli - plattfform ffynhonnell agored ar gyfer gwneud ceisiadau cyhoeddus rhyddid

gwybodaeth. Mae wedi gweithio ar gymwysiadau ar gyfer Box UK, World Vision, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Cyngres Undebau Llafur Cymru a Chymdeithas Havering Fabian. Gareth sefydlodd cardiffrb, ac mae'n parhau i gynnal y cyfarfod misol hwn i raglenwyr Ruby yng Nghaerdydd. Hefyd creodd Cardiff Collective fel lle i entrepreneuriaid yng Nghaerdydd gysylltu a rhannu gwybodaeth ac mae'n gweithio gyda Sam Knight i agor gwleidyddiaeth Cymru drwy Dy Senedd.

Iain Tweedale

Iain yw cyfarwyddwr Tramshed Tech, y ganolfan newydd ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd sy'n dwyn ynghyd y sectorau adloniant a thechnoleg. Cyn hynny roedd yn Bennaeth Ar-lein a Dysgu yn BBC Cymru, Pennaeth Datblygu Busnes ar gyfer cwmni cynnwys symudol o Sgandinafia ac yn brif ymgynghorydd yn y tîm ISP ac Ymgynghori Porth ar gyfer IBM yn Ewrop.

Andy Williamson

Mae'r Dr Andy Williamson yn gweithio ar draws y byd i gefnogi arloesi democrataidd a chyfranogiad dinesig effeithiol. Mae'n gweithio gydag ystod eang o gyrff cyhoeddus, fel y Cenhedloedd Unedig, y Comisiwn Ewropeaidd a seneddau y DU, Chile, Moldofa a Serbia. Andy yw awdur Adroddiad e-Seneddau'r Byd 2016 a'r Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Seneddau gan yr Undeb Ryngseneddol, ac mae'n aelod o Grŵp Llywio Partneriaeth Llywodraeth Agored y DU. Andy yw sylfaenydd a Phrif Weithredwr Democratise ac mae'n un o lywodraethwyr The Democratic Society.

ATODIAD 3: TROSOLWG O SENEDD LAB

Senedd Lab oedd diwrnod hacio cyntaf y Cynulliad. Roedd y digwyddiad yn ddi-dâl dros 24 awr ac yn canolbwyntio ar drafod, rhannu a dod â syniadau'n fyw a fyddai'n helpu i newid dyfodol diwylliant democrataidd yng Nghymru. Cynhaliwyd y digwyddiad ar nos Wener 24 Mawrth ac yn ystod dydd Sadwrn 25 Mawrth. Cyn y digwyddiad, cafodd nifer o ffynonellau data presennol y Cynulliad eu hyrwyddo i'r cynrychiolwyr.

Gan ddilyn fformat anghynhadledd, gwahoddwyd y cynrychiolwyr i gyflwyno cynigion ar sail briff y digwyddiad ac yna ffurfiwyd grwpiau i weithio ar brosiectau a oedd i'w cyflwyno i'r panel beirniadu, a oedd yn cynnwys aelodau'r Tasglu, cynrychiolydd o Microsoft ac uwch aelod o staff y Cynulliad. Trwy gydol yr ail ddiwrnod, cynhaliwyd trafodaethau galw heibio gan nifer o staff y Cynulliad er mwyn rhoi cyd-destun i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio a rhai o'r heriau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Hefyd cafwyd sgysiau byr gan gynrychiolwyr Microsoft ac aelodau'r Tasglu.

CANLYNIADAU:

Daeth dros 30 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd i'r digwyddiad (heb gynnwys staff y Cynulliad). Cyflwynwyd tri phrosiect i'r panel ar ddiwedd yr ail ddiwrnod.

Cafwyd nifer o bwyntiau dysgu allweddol o'r sgysiau gyda'r cynrychiolwyr a'r cyflwyniadau, a gall y Cynulliad fabwysiadu'r rhain er mwyn gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach a gyda gweithwyr technoleg a digidol proffesiynol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnwys:

Nid yw'r setiau data presennol y mae'r Cynulliad yn eu darparu yn cael eu hyrwyddo ddigon. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i wneud y setiau hyn yn fwy gweladwy a hefyd rhoi cyd-destun o ran sut y gellir eu defnyddio.

Mae angen ailgynllunio gwefan y Cynulliad fel ei bod rhoi esboniad mwy eglur o'r hyn y mae'n ei wneud a pham y mae'n bwysig i fywydau beunyddiol pobl.

Mae'r anghysondebau ynghylch y ffordd y caiff data a chynnwys eu cyflwyno ar-lein yn creu rhwystrau o ran dod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio.

Mae angen i'r Cynulliad fod yn gliriach am sut y gall pobl gymryd rhan a beth i'w ddisgwyl os ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

Rhaid defnyddio fideo yn well i gyfleu negeseuon. Mae eu dilysrwydd yn bwysicach na'u bod o ansawdd darlledu.

Mae angen i'r Cynulliad roi mwy o ystyriaeth i sicrhau bod cynnwys yn fwy hygyrch i amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys y rhai sydd â nam gwybyddol.

Dyma Cynulliad y Bobl, felly mae angen iddo ganolbwyntio ar y bobl i'w wneud yn fwy hygyrch, yn fwy perthnasol ac yn fwy cyfleus i gysylltu ag ef.

Mae dangos data yn weledol yn bwysig i'w gwneud yn fwy deniadol a diddorol.

**Nid oes llawer o wledydd
sy'n caniatáu ichi gael
mynediad at y math hwn
o ddata, ac yna yn eich
gwahodd i mewn i'w
cartref i chwarae gyda'u
data a gweld beth y
gallwch chi ei wneud –
mae gweithio gyda'r tîm
a gweld beth y gallwn ni
ei adeiladu wedi bod yn
anhygoel.**





”

Fel rhywun heb unrhyw allu technolegol, dim ond syniadau a'r ewylllys i siarad â phobl, rwy'n credu bod y Cynulliad heddiw wedi bod mor agored a hael, ac mor barod i wneud yn siŵr bod popeth yn agored i ni – nid y data yn unig ond y bobl a'r adeilad ffisegol – mae pawb wedi dysgu cymaint, er enghraifft cyn heddiw doeddwn i ddim yn teimlo'n rhan o'r Senedd a'r hyn y mae'r Senedd yn ei wneud, ond nawr rwy'n teimlo bod gennyf i well dealltwriaeth o'r hyn rydych chi'n ei wneud, pwy sy'n gwneud hynny, pam rydych chi'n ei wneud a sut y gall y cyhoedd fod yn rhan o hynny. Rwy'n aelod o'r cyhoedd ac rwy'n teimlo'n fy mod yn cymryd mwy o ran.

”

ATODIAD 4: ASTUDIAETHAU ACHOS

Codi ymwybyddiaeth am y Cynulliad drwy roi'r pwyslais ar bobl Cymru

I nodi Dydd Gŵyl Dewi 2017, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awyddus i gynnal ymgyrch aml-blatfform ddwyieithog i ddathlu balchder cenedlaethol, gan atgyfnerthu lle canolog y Cynulliad ym mywyd Cymru.

Y cysyniad y tu ôl i'r ymgyrch 'Gwlad mewn Geiriau' oedd dangos bod y Cynulliad yn cynrychioli pob llais yng Nghymru a rhoi'r sylw ar bobl Cymru yn hytrach nag ar y Cynulliad ei hun.

Casglwyd cyfraniadau ar gyfer yr ymgyrch gan yr ymwelwyr â'r Senedd a thrwy fynd allan ac ymweld â phobl yn eu cymunedau. Roeddem yn awyddus i greu ymgyrch a oedd yn cynrychioli Cymru fodern ac felly casglwyd geiriau mewn Cymraeg, Saesneg, Gwjarati, Arabeg, Groeg, Hebraeg, Tsieinëeg a Punjabi. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddim ond ar-lein neu all-lein, cafodd yr ymgyrch ei chynnwys ar holl sianelau'r Cynulliad, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol, deunydd argraffedig a digwyddiadau ar yr ystâd i ddarparu dull 'OmniChannel' gwirioneddol.

ASEDAU A LUNIWYD FEL RHAN O'R YMGYRCH:

- Celf testun yn cynnwys dros 160 o eiriau unigryw sy'n disgrifio Cymru. Defnyddiwyd hyn fel poster yn y Senedd, set o gardiau post a ddosbarthwyd yn y Senedd, delweddau pennawd ar sianelau Facebook a Twitter, a graffeg cymdeithasol.
- Fideo (a ddosbarthwyd ar YouTube ac yn gynhenid drwy Twitter, Facebook ac Instagram).
- Cofnod blog esboniadol, a ddarllenwyd gan 303 o bobl mewn 24 awr (ffigur sy'n cyfuno'r Gymraeg a'r Saesneg).

CANLYNIADAU'R YMGYRCH:

Cyfanswm y gost hyrwyddo ar gyfer yr ymgyrch oedd £20 a wariwyd ar hysbysebion Facebook. Yn y 24 awr cyntaf:

- Gwylodd 19,955 o bobl ein fideos ar draws ein holl blatfformau digidol;
- Drwyddi draw, llwyddwyd i gyrraedd 87,878 o ddefnyddwyr a bod yn rhan o 82 o sgysiau ar-lein; a
- Darllenwyd y blog gan 303 o bobl.

Targeddu ymgyrchoedd at gynulleidfaoedd sy'n ymwneud â materion penodol

Er mwyn hyrwyddo'r Ymchwiliad i'r Fasnachfaint Rheilffyrdd a'r Metro a gynhaliwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, datblygodd y tîm Cyfathrebu ymgyrch ddigidol a oedd yn targedu cynulleidfaoedd mewn ardaloedd ac yn ystod adegau pan fyddent fwyaf agored i'r mater yr oeddem yn ceisio cael adborth arno. Er mwyn gwneud yn fawr o'r dull hwn o weithredu defnyddiwyd negeseuon a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'w profiad yn ystod yr adeg pan fyddent yn gweld yr ymgyrch.

Roedd elfen Twitter yr ymgyrch yn canolbwyntio ar amseroedd cymudo a ffactorau allanol allweddol (er enghraifft, i gyd-fynd â phencampwriaeth y Chwe Gwlad). Ar Facebook targedwyd ardaloedd daearyddol yn seiliedig ar yr arosfannau ar bob reilffordd fawr yng Nghymru.

Lluniwyd hysbysebion ar ffurf baneri a'u rhoi ar flog y Cynulliad. I gefnogi'r ymgyrch ac i hyrwyddo'r ymchwiliad ymhellach, cynhyrchwyd cyfweiliad fideo gyda Russell George AC (Cadeirydd y Pwyllgor) a chafodd y fideo ei ffilmio ar drên i roi cyd-destun i'r ymchwiliad.

ASEDAU A LUNIWYD FEL RHAN O'R YMGYRCH:

- Animeiddiadau wedi'u teilwra i amrywiaeth o leoliadau a chynulleidfaoedd
- Fideo gyda Chadeirydd y Pwyllgor

CANLYNIADAU'R YMGYRCH:

Cyfanswm y gost hyrwyddo ar gyfer yr ymgyrch oedd £500 a wariwyd ar hysbysebion Facebook. Am yr ymgyrch gyfan (10 diwrnod):

- Fideo:
Cyrhaeddwyd 46,138, gwylwyd gan 15,099, a chafwyd 264 o gliciau ar lincs
- Facebook:
Cyrhaeddwyd 139,462, a chafwyd 3,940 o gliciau ar lincs
- Twitter:
362 o gliciau ar lincs

Mabwysiadu arloesedd digidol priodol

Rhyddhawyd Facebook Live i'r cyhoedd ar 6 Ebrill 2016. Yn dilyn peth gwaith ymchwilio, penderfynodd tîm Cyfathrebu'r Cynulliad fabwysiadu'r platfform gan ei fod yn cynnig cyfle gwych i ymgysylltu mewn amser real (gall y cyhoedd holi cwestiynau a chael ateb iddynt mewn amser real – mae hyn yn helpu i chwalu'r rhagdybiaeth ei bod yn anodd mynegi barn i Aelodau'r Cynulliad), ei fod yn gosod ein cynnwys yn y manau hynny a ddefnyddir eisoes yn hytrach na disgwyl i bobl ddod i sianel wahanol, a bod y newidiadau i algorithm Facebook yn golygu bod fideos Facebook Live yn cael blaenoriaeth uwch mewn ffrydiau, ac felly'n debygol o gyrraedd cynulleidfia eang.

Darlledodd y Cynulliad drwy Facebook Live am y tro cyntaf ar 27 Gorffennaf 2016 – lai na phedwar mis ar ôl i Facebook lansio'r gwasanaeth Live. Cynhaliwyd y cyfweiliad gyda Bethan Jenkins, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, yn Gymraeg yn gyntaf ar wefan Facebook Cynulliad Cymru ac yna yn Saesneg ar wefan Facebook Assembly Wales.

CANLYNIADAU :

Cyfanswm cost hyrwyddo'r ymgyrch oedd £0. O fewn 15 awr o'r darllediad, roedd y fideos wedi cael:

- 1,744 o wyladau unigryw
- Wedi cyrraedd 6,161 o bobl
- Wedi cael 113 o ymatebion cyfun (105 yn hoffi, 8 wrth eu bodd)
- Yn ystod ac ar ôl y fideo byw, bu cynnydd cyfunol o 26 o bobl yn hoffi'r tudalennau o'r newydd (5-10 sy'n eu hoffi ar ddiwrnod arferol)

Roedd yr Adborth a gawsom drwy'r darllediad yn cynnwys:

- *'Gwych gweld y Cynulliad ar Facebook Live'*
- *'Ffrwd byw da, platfform gwych, ac yn ddefnyddiol i'w wylion hwyrach gan fy mod yn gweithio'n llawn amser, da iawn'.*

Ers hynny, mae'r Cynulliad wedi defnyddio Facebook Live fel rhan o ddigwyddiadau ac i lansio nifer o ymgynghoriadau pwyllgor.

Archwilio platfformau digidol newydd

Platfform cyfryngau cymdeithasol yw Snapchat sy'n seiliedig ar ddelweddu sy'n anfon delweddau a fideos byr eu hoes rhwng defnyddwyr, gyda'r potensial i ychwanegu hidlyddion ac effeithiau; mae bellach yn cael ei ddefnyddio gan fusnesau a sefydliadau fel arf marchnata. Dyma'r platfform cyfryngau cymdeithasol sy'n tyfu gyflymaf ac a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc rhwng 12 a 24 oed. Mae 72% yn mabwysiadu Snapchat ac mae ganddo dros 100 miliwn o ddefnyddwyr sy'n anfon dros 400 miliwn o 'snaps' y dydd.

Yn ystod y digwyddiadau i groesawu'r athletwyr Olympaidd adref yn 2016 y defnyddiodd y Cynulliad Snapchat gyntaf. Rhyddhaodd hidlydd pwrpasol wedi'i geoleoli o amgylch y Senedd, ond roedd angen gwneud rhagor o ymchwil i weld a oedd yn blatfform y gallai'r Cynulliad ei fabwysiadu i gyrraedd cynulleidfa o bobl ifanc.

Roedd Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr yr UEFA ym mis Mai/ Mehefin yn gyfle da i brofi ymhellach pa mor effeithiol oedd y platfform ac asesu ei botensial at y dyfodol.

Gyda mwy o bresenoldeb yn Eisteddfod yr Urdd yn 2017 oherwydd yr ymgynghoriad i'r Senedd leuencid, dewiswyd yr Eisteddfod i fod yn ganolbwynt ar gyfer hidlydd Snapchat, a oedd ar gael trwy gydol yr Eisteddfod ac yn cael ei hyrwyddo ar y stondin.

Fel ffordd o ddangos bod y Senedd yn agored i ymwelwyr yn ystod Gŵyl Gêm Derfynol Pencampwyr Cynghrair yr UEFA a fyddai'n cael ei chynnal yn y Bae, creodd y Cynulliad hidlydd Snapchat 'Croeso' yn cynnwys Dewi'r Ddraig, a oedd yn gwisgo cit pêl-droed. Cafodd yr hidlydd ei hyrwyddo ar Instagram ac roedd ar gael yn ystod pedwar diwrnod yr ŵyl.

CANLYNIADAU:

EISTEDDFOD YR URDD:

- Defnyddiwyd yr hidlydd 33 o weithiau
- Cafodd ei weld (fel opsiwn i'w ddewis) 1,108 o weithiau
- Cyfanswm y costau ar gyfer yr hidlydd oedd £9
- Cafodd ei weld yn y pen draw gan 2,058 o bobl, a hynny ar gyfartaledd yn costio llai na cheiniog am bob un a gyrhaeddwyd

GŴYL GÊM DERFYNOL CYNGHRAIR PENCAMPWYR YR UEFA

- Defnyddiwyd yr hidlydd 91 o weithiau
- Cafodd ei weld (fel opsiwn i'w ddewis) 806 o weithiau
- Cyfanswm y costau ar gyfer yr hidlydd oedd £65 am bedwar diwrnod
- Cafodd ei weld yn y pen draw gan 5,039 o bobl, a hynny ar gyfartaledd yn costio 1.2 ceiniog am bob un a gyrhaeddwyd

Lleoliad yr hidlydd sy'n cyfrif am y gwahaniaeth yng nghostau'r UEFA a'r Urdd, sy'n cynyddu mewn dinas neu lle mae nifer o hidlyddion eraill yn cael eu defnyddio.

FySenedd

Rydym yn gweithredu mewn byd sy'n newid yn gyflym, byd symudol a digidol iawn sy'n rhoi pwysau cynyddol ar Aelodau'r Cynulliad ac yn gwneud ymgysylltiad democrataidd yn fwyfwy pwysig a heriol. Rydym yn anelu at fod y senedd gorau yn y byd, ac i wneud hynny mae angen inni wneud ein gwybodaeth yn fwy agored, ac ar gael yn ddigidol.

Ein gweledigaeth yw 'cysylltu ac ymgysylltu holl bobl Cymru gyda gwybodaeth seneddol y gellir ymddiried ynddi pryd bynnag, fodd bynnag, a lle bynnag y maent yn dewis gwneud hynny'.

Mae dod yn senedd agored, digidol yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y llif o wybodaeth i mewn, o fewn, ac allan o'r Cynulliad mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan gynnig dewis, hyblygrwydd a rhwyddineb defnydd i'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd. Rydym wedi cydnabod bod angen inni wneud nifer o welliannau i gyflawni hyn ac mae'r rhaglen **FySenedd** wedi cael ei sefydlu i gydgyssylltu prosiectau a gweithgareddau cysylltiedig.

Drwy gydol y Pumed Cynulliad, byddwn yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau ymarferol yn flynyddol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion yr Aelodau ac anghenion pobl Cymru, a fydd yn rhoi profiad llawer haws, mwy perthnasol, mwy personol a chyda mwy o foddhad i bob un o'n defnyddwyr .

CANLYNIADAU:

YMHLITH YR ENGHREIFFTIAU O AIL-DDYLUNIO GWASANAETHAU SY’N MYND RHAGDDYNT YN DDA MAE’R CANLYNOL:

- **cyflwyno busnes:** ei gwneud yn haws i'r Aelodau a'u staff gyflwyno busnes drwy borth personol ar-lein, ac yn ei gwneud yn haws i bawb weld, olrhain a chwilio busnes y Cynulliad;
- **Cofnod y Trafodion** - ei gwneud yn haws chwilio drwy'r Cofnod a thrawsgrifiadau pwyllgorau a'u rhannu, mewn nifer o fformatau a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol; drafftio a diwygio deddfwriaeth; a
- **gwella a disodli'r system bresennol.**

Wedi'i danategu gan strategaeth rheoli gwybodaeth effeithiol, rydym yn cynnig gosod y sylfeini digidol lle caiff gwelliannau eraill eu gwneud, megis ailwampio ein gwefan. Dylai hyn arwain at well rheolaeth a defnydd o'n data a'n gwybodaeth yn ogystal â phrosesau gwaith mwy effeithlon.



ATODIAD 5: AROLWG O GYFRYNGAU A LEOLIR YNG NGHYMRU

Fel rhan o'u hymchwil, cynhaliodd y Tasglu arolwg gyda newyddiadurwyr o Gymru i gael gwybod pa wybodaeth y byddai ganddynt ddiddordeb ei chael gan y Cynulliad ac ym mha becynnau a fformatau yr hoffent gael y wybodaeth honno.

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos fel a ganlyn:

- Dadleuon y Cyfarfod Llawn a gwaith Llywodraeth Cymru a gafodd y sgôr uchaf o ran perthnasedd i'r gynulleidfa/darllenwyr, gyda'r sgôr isaf i fentrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn yr ardal leol;
- Ar hyn o bryd, y ffordd fwyaf cyffredin y mae newyddiadurwyr yn cael gwybodaeth y Cynulliad yw drwy ddatganiadau i'r wasg;
- Y mathau pwysicaf o gynnwys/gweithgarwch yr hoffai newyddiadurwyr eu gweld yw diweddariad wythnosol o'r hyn sydd ar y gorwel yn ôl pwnc, mater neu leoliad daearyddol, datganiadau i'r wasg a ffeithluniau, a'r lleiaf pwysig yw pecynnau fideo gydag astudiaethau achos lleol perthnasol, clipiau fideo gydag Aelod Cynulliad lleol sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor a chlip fideo o gadeiryddion pwyllgorau;
- Mae newyddiadurwyr yn defnyddio'r wefan yn rheolaidd, ond prin y maent yn defnyddio sianelau YouTube, Instagram a Flickr y Cynulliad;
- Negeseuon e-bost yw'r ffordd y maent yn ei ffafrio o ran cael gwybodaeth ond hoffai rhai i hyn fod ar ffurf neges sy'n eu hysbysu pan fydd cynnwys newydd yn cael ei ychwanegu at y wefan;
- Mae'r cynnwys a'r wybodaeth y maent yn dymuno'u cael yn cynnwys crynodebau o ddadleuon a thrafodion y gall newyddiadurwyr ymchwilio iddynt yn fanylach os oes ganddynt ddiddordeb, cyfnodau paratoi hwy, mwy o becynnau o dan embargo, pecynnau clipiau wythnosol a rhestr e-bost o ddadleuon a thrafodion yr wythnos nesaf.

